



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru

Adroddiad terfynol

Medi 2013 – Mawrth 2014



Leading education
and social research
Institute of Education
University of London

Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru

Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen, a arweiniwyd gan yr Athro Iram Siraj, a edrychodd ar y ffordd y caiff y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru ei weithredu ar lawr gwlad a sut y gellir ei wella yn y dyfodol.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm y Blynyddoedd Cynnar

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: earlyyears@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn

www.dysgu.cymru.gov.uk/adnoddau neu www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau

Arweinydd yr archwiliad: Yr Athro Iram Siraj

Swyddog ymchwil: Denise Kingston

Institute of Education

University of London

Department of Early Years and Primary Education

20 Bedford Way

London

WC1H 0AL

e-bost: I.Siraj@ioe.ac.uk

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	2
2. Cyflwyniad	12
3. Y broses archwilio	15
4. Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu ledled Cymru?	19
5. Canfyddiadau ac argymhellion: sut y caiff sgiliau datblygu iaith, llythrennedd a rhifedd eu hymgorffori yn yr holl Feysydd Dysgu?	26
6. Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ymdrin â gwella ansawdd dysgu i blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel?	30
7. Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn monitro/ymdrin â chyfnodau pontio a dilyniant, o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen ac yna Gyfnod Allweddol 2?	32
8. Canfyddiadau ac argymhellion: a oes amrywiaeth o ran canolbwyntio ar ansawdd mewn perthynas ag arweinyddiaeth, y gweithlu a phrofiad y plentyn?	35
9. Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y caiff egwyddorion a gofynion y Cyfnod Sylfaen eu hymgorffori mewn HCA a DPP?	39
Rhestr gyfeirio	43
Atodiad 1: Rhestr o aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Archwilio'r Cyfnod Sylfaen	48
Atodiad 2: Crynodeb byr o hyfforddiant ac argymhellion a rhesymeg gysylltiedig	50
Atodiad 3: Enghreifftiau o aelodaeth grŵp cynllunio strategol posibl	56
Atodiad 4: Cwestiynau a gymerwyd o holiadur enghreifftiol a ddefnyddiwyd yn yr archwiliad	57

1. Crynodeb gweithredol

1.1. Y Broses Archwilio a'i nodau: Cafodd yr Archwiliad annibynnol hwn o'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen (Cyfnod Sylfaen), a gadeiriwyd gan yr Athro Iram Siraj, ei gomisiynu gan Huw Lewis (y Gweinidog Addysg a Sgiliau) o fis Medi 2013 i fis Mawrth 2014. Roedd yr Archwiliad yn cynnwys pedwar dull o gasglu tystiolaeth a dilysu canfyddiadau (gweler Tabl 2 ar dudalen 16). Yn gyntaf, Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn cynnwys arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol o bob cwr o Gymru; yn ail, ymweliadau ag ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir da ac ardderchog (cyfanswm o 11 yn y gogledd a'r de); yn drydydd, chwe grŵp ffocws (cyfanswm aelodau: 67 o randdeiliaid, gan gynnwys ymarferwyr o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir heblaw am y rhai yr ymwelwyd â hwy); ac yn olaf cyfres o holiaduron a ddosbarthwyd i'r sector cyfan (cyfanswm a gwblhawyd: 75). Cytunwyd ar nodau'r Archwiliad ac fe'u nodwyd yn y cylch gorchwyl:

- Deall pa mor dda y caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu ledled Cymru
- Egluro sut y caiff sgiliau datblygu iaith, llythrennedd a rhifedd eu hymgorffori ym mhob Maes Dysgu (MD) mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir ar gyfer pob grŵp oedran
- Mesur pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ymdrin â gwella ansawdd dysgu i blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel
- Pennu sut a phryd y mae plant yn ymuno â'r Cyfnod Sylfaen a sut y caiff dilyniant, yn enwedig o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen ac yna Gyfnod Allweddol 2, ei ddangos neu sut y gellir gwneud hynny
- Nodi lle ceir amrywiaeth ansawdd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, y gweithlu a phrofiad y plentyn
- Pennu pa mor dda y caiff egwyddorion a gofynion y Cyfnod Sylfaen eu hymgorffori o fewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
- Gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

Canolbwyntiodd yr Archwiliad ar weithredu'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru ac o fewn darparwyr Cyfnod Sylfaen gwahanol ac edrychodd yn ofalus ar agweddau a allai lywio polisiau yn y dyfodol. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r Cyfnod Sylfaen yn helpu plant i ddysgu ar sail unigol, yn ogystal â'u teuluoedd a chymunedau, ynghyd ag agweddau ar arweinyddiaeth, cymwysterau, hyfforddiant, safonau a chynnodau pontio.

1.2. Cyd-destun rhyngwladol: Mae Cymru wedi cymryd rhan mewn proses gwella ansawdd uchelgeisiol gan gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn raddol dros y deng mlynedd diwethaf. Mae llawer o'r prosesau a'r strategaethau a gyflwynwyd i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn seiliedig ar dystiolaeth, a gwyddom fod yr addysgeg a'r ymarfer sylfaenol o fewn y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar ymarfer athrawon ac ymarferwyr ac yn arwain at welliannau o ran ansawdd darpariaeth i blant a'u teuluoedd (Sylva et al, 2004; Siraj-Blatchford et al, 2006). Mae'r ffocws ar wella bywydau plant a'u teuluoedd mewn tlodi drwy gefnogi dysgu ac addysgu plant bach hefyd wedi'i ategu'n dda gan dystiolaeth ac mae'n hynod bwysig i Gymru (Siraj-Blatchford a Siraj-Blatchford, 2010; Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013a). Fodd bynnag, cyn y gellir gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol yng Nghymru, mae angen gwneud newid sylfaenol mewn diwylliant o fewn llawer o'r ysgolion a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir sydd ynghlwm ag ef, a fydd yn cymryd amser (Mitchell a Cubey, 2003). Ystyriodd Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) (2004) welliannau ansawdd o'r fath ledled y byd a daeth i'r casgliad eu bod, nid yn unig yn galw am arweiniad cryf gan lywodraethau gyda gweledigaeth hirdymor gadarn, ond eu bod hefyd yn gofyn am staff sydd â digon o gymhelliant ac sydd wedi'u cefnogi'n dda. At hynny, nodwyd ei bod yn bosibl na fydd effaith polisi addysg i'w gweld am sawl blwyddyn ar ôl ei gyflwyno. Yn olaf, rhybuddiodd na ellir ystyried un polisi yn annibynnol ar bolisiâu a thueddiadau eraill byth.

1.3. Y cyd-destun Cymreig: Mae canfyddiadau'r Archwiliad annibynnol hwn yn unol â chasgliadau UNESCO (2004) (gweler adran 1.2). Mae'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn amrywio o fewn a rhwng ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, ond ymddengys fod pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir yn gyffredinol gyda'r newid a'r broses gymhleth iawn hon. Awgrymodd 'Monitoring and Evaluation of the Effective Implementation of the FP (MEEIFP) Project Across Wales' fod 10% o'r lleoliadau Cyfnod Sylfaen peilot yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn dda ar yr adeg honno (Siraj-Blatchford et al, 2006). Er nad oes modd cymharu'n uniongyrchol, mae'n ddiddorol nodi i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Archwilio'r Cyfnod Sylfaen amcangyfrif bod tua un rhan o bump o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus iawn ar hyn o bryd.

Er mwyn helpu i gyflawni'r broses wella yng Nghymru ymhellach mae'r Archwiliad wedi llunio rhestr o 23 o argymhellion. Mae'r argymhellion hyn yn effeithio ar Gymru a'r Cyfnod Sylfaen ar bob lefel gan gynnwys arweinwyr strategol cenedlaethol a lefel consortia, penaethiaid, arweinwyr eraill o fewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, athrawon dosbarth, ymarferwyr, cynghorwyr, arolygwyr a sefydliadau hyfforddi. Cyn ystyried y rhestr iawn (ar dudalennau 8-11) mae'r tair adran ganlynol yn canolbwyntio, yn gyntaf, ar argymhelliad 1: cefnogi cynllun strategol 10 mlynedd; yn ail, argymhellion sy'n ystyried hyfforddiant a chymorth i athrawon ac ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen; ac yn drydydd, 10 prif flaenoriaeth fyrdymor gan eu bod yn cael eu hystyried yn feysydd diwygio allweddol.

1.4. Argymhelliaid 1: cefnogi cynllun strategol 10 mlynedd: Er mwyn cefnogi'r broses wella yng Nghymru ymhellach gallai cynllun strategol tymor hwy, 10 mlynedd o leiaf, gael ei lunio a'i fonitro gan grŵp gweithredu yn cynnwys arbenigwyr Cyfnod Sylfaen allweddol o Gymru a thu hwnt. Byddai angen i'r arbenigwyr fod yn hyddysg ynghylch y materion allweddol sy'n ymwneud ag addysgeg drwy brofiadau a chwarae'r Cyfnod Sylfaen, ynghyd â safonau a sut mae plant bach yn datblygu ac yn dysgu. Byddent yn cael budd o'u gwybodaeth fanwl am addysg a systemau plentyndod cynnar o fewn Cymru a'r tu hwnt iddi yn ogystal â'r gallu i ddeall a dehongli tystiolaeth ymchwil a gwerthuso.

Er mwyn sefydlu grŵp cynllunio strategol a'i ddatblygu byddai'n fuddiol cynnal ymarfer cwrdd cychwynnol er mwyn ystyried y cylch gwaith a sicrhau bod y cynrychiolwyr cywir ag arbenigedd cadarn ar gael (rhydd Atodiad 3 rai enghreifftiau o aelodau posibl). Yn ogystal â gweithredu fel grŵp cynllunio strategol, dylai'r arbenigwyr Cyfnod Sylfaen allweddol fod yn gyfrwng ar gyfer holl newidiadau, gwaith cynllunio a gwerthusiadau'r Cyfnod Sylfaen. Byddent yn cyfeirio at *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (APADGOS, 2008) fel eu prif fframwaith cyfeirio. Eu darn mawr cyntaf o waith fyddai blaenoriaethu'r argymhellion (o'r Archwiliad ac adolygiadau a gwerthusiadau eraill) cyn cydgysylltu a monitro'r newidiadau. Yn ogystal, fel rhan o'r broses wella, dylai fod ganddynt gylch gwaith ar gyfer cyfathrebu a dylent lunio strategaeth er mwyn sicrhau bod holl staff a rhanddeiliaid y Cyfnod Sylfaen yn ymwybodol o'r cynllun strategol 10 mlynedd, sut mae'n datblygu a beth fydd yn ei olygu iddynt hwy yn eu sefyllfa unigryw dros amser.

1.5. Argymhellion sy'n targedu hyfforddiant a chymorth. Ceir nifer fawr o argymhellion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddi a chynorthwyo penaethiaid, athrawon ac ymarferwyr o fewn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth, drwy wella ansawdd addysgu, yn hytrach na chanolbwyntio ar newidiadau strwythurol yn unig, y gellir gwella cyflawniadau plant hefyd fwy na thebyg (Hopkins, 2013). Yn benodol, dylai hyfforddiant a chymorth fod yn 'addas at y diben' ar gyfer y gynulleidfa darged, cynnwys rhai canllawiau ar sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn gweddu i gyfeiriadau polisi cyfredol eraill, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, yn ogystal ag ehangu ei gylch gwaith i gynnwys pob arweinydd (ar lefel consortia yn ogystal ag ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir), staff Cyfnod Allweddol 2 a phob lleoliad nas cynhelir. Mae angen i rai meysydd ymarfer gael eu hatgyfnerthu gan gynnwys sgiliau arwain, ymarfer myfyriol a deall sut mae plant yn dysgu ac yn datblygu orau. Mae angen i athrawon ac ymarferwyr ddeall effeithiau anfantais a phwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y cartref a chefnogi cyfnodau pontio. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gysylltu gwaith theori ac ymchwil ag addysgeg oedolion ym mhob modiwl hyfforddi. Mae angen i fodolau clir ac enghreifftiau o ymarfer o fewn y Cyfnod Sylfaen yn y sector cyfan gael eu nodi, bod ar gael a bod yn hygyrch (gan ychwanegu gwybodaeth a hyfforddiant at wefan Cyfnod Sylfaen bwrpasol efallai).

1.6. Y 23 o argymhellion: Mae'r argymhellion wedi'u rhannu'n ddwy restr. Yn gyntaf, 10 blaenoriaeth fyrdymor ar dudalennau 6-8 ac yna restr lawn o'r 23 o argymhellion yn Nhabl 1, ar dudalennau 9-12. Cyflwynir yr argymhellion yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad. Maent yn cysylltu â'r adrannau Canfyddiadau ac Argymhellion lle caiff y rhesymeg dros ymarfer effeithiol, y cyddestun yng Nghymru a'r materion a nodwyd eu hamlinellu a'u trafod cyn nodi'r argymhellion penodol.

Argymhellion yr Archwiliad ar gyfer Llywodraeth Cymru:

Prif flaenoriaethau byrdymor:

- **Penodi grŵp strategol o arbenigwyr Cyfnod Sylfaen o Gymru a thu hwnt i chwarae rôl gynllunio strategol a hirdymor o fewn y Cyfnod Sylfaen. Llundio cynllun 10 mlynedd er mwyn cefnogi'r camau nesaf yn y broses o weithredu a chydgrynhai'r Cyfnod Sylfaen:**
 - defnyddio'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (APADGOS, 2008) fel canllaw
 - datblygu argymhellion allweddol o werthusiadau ac adolygiadau cyfredol a'r Archwiliad hwn
 - datblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol ar gyfer Cymru gyfan
 - gweithredu fel cyfrwng ar gyfer holl newidiadau, gwaith cynllunio a gwerthusiadau'r Cyfnod Sylfaen.
- **Ystyried prosesau a gweithdrefnau arolygu cyfredol, gan gynnwys gwneud rhai newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn dwyn ynghyd arolygiaethau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) yn un broses arolygu ar y cyd sy'n cynnwys y ddwy arolygiaeth a gyflawnir ym mhob rhan o'r Cyfnod Sylfaen (grŵp oedran 3-7). Dylai hyn sicrhau bod modd cymharu arolygiadau holl ddarparwyr y Cyfnod Sylfaen (sy'n gwasanaethu plant 3-7 oed). Noder: Mewn ysgolion cynradd dylid parhau i gynnal un arolygiad ond gan gynnwys ansawdd math AGGCC a ychwanegir at y tîm a'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei adrodd ochr yn ochr ag arolygiad Cyfnod Allweddol 2.**
- **Nodi lleoliadau/ysgolion rhagorol er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant pob aelod o staff. Nodi dulliau o rannu arfer gorau rhwng ysgolion a gynhelir a phob lleoliad nas cynhelir ac i'r gwrthwyneb.**

- Ystyried hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr o fewn y sector cyfan, gan gynnwys arweinwyr strategol yn y Wlad, consortia, penaethiaid cynradd, staff cynghori, arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a gwasanaethau i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i'r gynulleidfa ac ystyried ei hanes a phrofiadau blaenorol a chynnwys ymchwil sy'n dangos sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi safonau ac effeithio ar dwf cymdeithasol ac economaidd yn gyffredinol.
- Ystyried cefnogi dilyniant a pharhad drwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy ddatblygu rhywfaint o hyfforddiant a chanllawiau ychwanegol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar ymarfer iaith, llythrennedd a rhifedd i blant 3 a 4 oed, gan sicrhau bod hyn yn briodol i'r plant yma. Dylai ddilyn eu hanghenion dysgu a datblygu unigol a gweddu i athroniaeth ac ymarfer drwy brofiadau'r Cyfnod Sylfaen.
- Parhau i ddatblygu (drwy'r Fframwaith Datblygu ac Asesu Blynyddoedd Cynnar) ac yna weithredu profion asesu sy'n ystyried sgiliau ymarferwyr. Sicrhau bod y proffil hwn yn parhau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) a bod unrhyw elfennau safonol yn cael eu cymedroli. Dylai asesiadau o'r plant ieuengaf fod yn gyfyngedig i asesiadau arsylwadol gan athrawon/ymarferwyr. Pan fo plant yn 5 oed (gan weithredu fel llinell sylfaen) ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed y byddai orau i gyflwyno elfennau safonol.
- Sicrhau bod gan y cydgysylltwyr Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir ddigon o wybodaeth a phrofiad i ddeall yr egwyddorion ac arferion o fewn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, argymhellir eu bod yn cael eu graddio ar lefel arwain ddigonol (fel aelodau o'r uwch dîm rheoli, dirprwy bennaeth ac ati) er mwyn gwneud penderfyniadau a chefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol.
- Adolygu'r gymhareb oedolion i blant gyfredol mewn dosbarthiadau derbyn. Ar hyn o bryd mae'n 1:8. Cytunodd staff ysgol gynradd, cynghorwyr ac arolygwyr y gellid ei chynyddu i 1:10 heb effeithio ar ansawdd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai ysgolion wneud cais am eithriad lle, er enghraifft, y'u lleolir mewn ardaloedd gwledig iawn neu lle mae ganddynt nifer sylweddol o blant ag anghenion ychwanegol fel Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gymraeg/Saesneg fel iaith Ychwanegol oherwydd ni fyddai'n ymarferol cynyddu'r gymhareb.

- Ystyried ei gwneud yn ofynnol i Athro cymwys arwain ymarfer ym mhob dosbarth Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys dosbarthiadau meithrin).
- Egluro a diffinio rôl y 10% o leoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n cefnogi athrawon. Dylid sicrhau bod pob lleoliad nas cynhelir a ariennir sy'n gymwys yn derbyn y cymorth hwn a'i fod yn effeithiol. Os oes adnoddau ar gael, dylai'r fath gymorth gynyddu i 20%.

Tabl 1 Y rhestr lawn o Argymhellion yr Archwiliad i Lywodraeth Cymru

(nodiadau: mae'r Adran yn cyfateb i'r adran yn yr adroddiad lle mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig â thystiolaeth; nodir pob argymhelliad sy'n ymwneud â hyfforddiant mewn ffont italig):

Rhif	Argymhelliad	Adran a thudalen
1	Penodi grŵp strategol o arbenigwyr Cyfnod Sylfaen o Gymru i chwarae rôl gynllunio strategol a hirdymor o fewn y Cyfnod Sylfaen. Llunio cynllun 10 mlynedd er mwyn cefnogi'r camau nesaf yn y broses o weithredu a chydgrynhoi'r Cyfnod Sylfaen: - defnyddio'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (APADGOS, 2008) fel canllaw - datblygu argymhellion allweddol o werthusiadau ac adolygiadau cyfredol a'r Archwiliad hwn - datblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol ar gyfer Cymru gyfan - gweithredu fel cyfrwng ar gyfer holl newidiadau, gwaith cynllunio a gwerthusiadau'r Cyfnod Sylfaen.	4 tud. 25
2	Ystyried prosesau a gweithdrefnau arolygu cyfredol, gan gynnwys gwneud rhai newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn dwyn ynghyd arolygiaethau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) yn un broses arolygu ar y cyd sy'n cynnwys y ddwy arolygiaeth a gyflawnir ym mhob rhan o'r Cyfnod Sylfaen (grŵp oedran 3-7). Dylai hyn sicrhau bod modd cymharu arolygiadau holl ddarparwyr y Cyfnod Sylfaen (sy'n gwasanaethu plant 3-7 oed). Noder: Mewn ysgolion cynradd dylid parhau i gynnal un arolygiad ond gan gynnwys ansawdd math AGGCC a ychwanegir at y tîm a'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei adrodd	4 tud. 25

	ochr yn ochr ag arolygiad Cyfnod Allweddol 2.	
3	Nodi lleoliadau/ysgolion rhagorol er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant pob aelod o staff. Nodi dulliau o rannu arfer gorau rhwng ysgolion a gynhelir a phob lleoliad nas cynhelir ac i'r gwrthwyneb.	4 tud. 25
4	<i>Ystyried hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr o fewn y sector cyfan, gan gynnwys arweinwyr strategol yn y Wlad, consortia, penaethiaid cynradd, staff cyngori, arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a gwasanaethau i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i'r gynulleidfa ac ystyried ei hanes a phrofiadau blaenorol a chynnwys ymchwil sy'n dangos sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi safonau ac effeithio ar dwf cymdeithasol ac economaidd yn gyffredinol.</i>	4 tud. 26
5	<i>Sicrhau yr ategir pob modiwl/hyfforddiant gan waith theori ac ymchwil sy'n nodi'n glir werth addysg gynnar effeithiol. Mae angen i'r cysylltiadau rhwng gwaith theori ac ymarfer a rôl bwysig yr oedolyn fod yn amlwg.</i>	4 tud. 26
6	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n pwysleisio ac yn egluro datblygiad sgiliau o fewn y Cyfnod Sylfaen. Dylai modelau ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gael eu rhannu a'u gwerthuso ym mhob grŵp oedran. Sicrhau bod y modelau a'r enghreifftiau hyn ar gael yn hawdd i ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir (ar-lein a/neu drwy ymweliad efallai).</i>	4 tud. 26
7	Ystyried hawl plant tair oed i addysg a gofal cynnar o ansawdd uchel lle bynnag y mae eu rhieni yn dewis eu rhoi. Efallai y bydd angen hyfforddiant (gan gynnwys mentora gan athro cymwys) ac adnoddau ychwanegol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac nas ariennir er mwyn sicrhau profiad cyfartal.	4 tud. 26
8	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o sut mae iaith, llythrennedd a rhifedd yn datblygu a sut i gefnogi datblygiad plant o fewn y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys rôl bwysig yr oedolyn.</i>	5 tud. 30
9	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n cynnwys canllawiau ac enghreifftiau clir o sut mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gweddu i'r Cyfnod Sylfaen, 3-4 a 5-7. Er enghraifft yn y canllawiau 3-4 oed sut y gall caneuon a hwiangerddi bwysleisio dealltwriaeth o synau mewn rhigymau a chyflythrennu.</i>	5 tud. 30
10	Ailystyried y ffordd y caiff yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2) eu sgorio ynghyd â'r meysydd a gaiff eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6). Er mwyn sicrhau y gellir mesur dilynant, ystyried asesu'r canlynol: Sgiliau iaith, llythrennedd	5 tud. 30

	a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ym Mlwyddyn 2 a Chymraeg/Saesneg, mathemateg, datblygiad personol a chymdeithasol ym Mlwyddyn 6. Sgorio datblygiad personol a chymdeithasol ar wahân, ac nid fel rhan o Saesneg a mathemateg sy'n fwy academiaidd, fel bod modd cymharu tebyg at ei debyg.	
11	<i>Ystyried cefnogi dilyniant a pharhad drwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy ddatblygu rhywfaint o hyfforddiant a chanllawiau ychwanegol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar ymarfer iaith, llythrennedd a rhifedd i blant 3 a 4 oed, gan sicrhau bod hyn yn briodol i blant o'r fath. Dylai ddilyn eu hanghenion dysgu a datblygu unigol a gweddu i athroniaeth ac ymarfer drwy brofiadau'r Cyfnod Sylfaen.</i>	5 tud. 30
12	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr ymchwil i effeithiau anfantais a thlodi a'r ffyrdd posibl o gau'r bwch o ran cyflawniad. Dylai rhannu arfer da o'r ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hynny lle mae hyn yn gweithio'n dda fod yn rhan o'r hyfforddiant yn yr un modd ag ymchwil i gefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref (ADC). Gellid gofyn i ysgolion a gynhelir neilltuo rhywfaint o'u Grant Amddifadedd Disgyblion (neu rywbeth tebyg) i ddatblygiad staff cymorth yma.</i>	6 tud. 32
13	<i>Ystyried atgyfnerthu trefniadau pontio drwy hyfforddi'r holl staff dan sylw gyda'i gilydd (staff o bob lleoliad nas cynhelir, Dechrau'n Deg, staff Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 ac ati) Dylai'r hyfforddiant gynnwys ymchwil a gwaith theori cyfredol ynghyd ag enghreifftiau ymarferol o arferion pontio da.</i>	7 tud. 34
14	<i>Parhau i ddatblygu (drwy'r Fframwaith Datblygu ac Asesu Blynnyddoedd Cynnar) ac yna weithredu proffil asesu sy'n ystyried sgiliau ymarferwyr. Sicrhau bod y proffil hwn yn parhau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) a bod unrhyw elfennau safonol yn cael eu cymedroli. Dylai asesiadau o'r plant ieuengaf fod yn gyfyngedig i asesiadau arsylwadol gan athrawon/ ymarferwyr. Pan fo plant yn 5 oed (gan weithredu fel llinell sylfaen) ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed y byddai orau i gyflwyno elfennau safonol.</i>	7 tud. 34
15	<i>Datblygu hyfforddiant pwrpasol penodol ar arweinyddiaeth sydd wedi'i gynllunio i gefnogi arweinwyr ym mhob rhan o'r sector, o fewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, ond yn enwedig gan gynnwys penaethiaid cynradd.</i>	8 tud. 38
16	<i>Sicrhau bod gan y cydgysylltwyr Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir ddigon o wybodaeth a phrofiad i ddeall yr egwyddorion ac arferion o fewn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, argymhellir eu bod yn cael eu graddio ar lefel arwain ddigonol (fel aelodau o'r uwch dîm rheoli, dirprwy bennaeth ac ati) er mwyn gwneud penderfyniadau a chefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol.</i>	8 tud. 38

17	Sicrhau bod Cynorthwyrwr Addysgu (CAau) yn cael budd o brosesau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a chymorth o fewn ysgolion a gynhelir a bod hyfforddiant llythrennedd a rhifedd ar gael i'r rheini sydd ei angen. Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer yr ymarferwr hynny sy'n gweithio yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ar gyfer CAau o fewn ysgolion a gynhelir. Hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ac adolygu telerau ac amodau gwaith CAau er mwyn denu staff cymwys.	8 tud. 38
18	Adolygu'r gymhareb oedolion i blant gyfredol mewn dosbarthiadau derbyn. Ar hyn o bryd mae'n 1:8. Cytunodd staff ysgolion cynradd, cynghorwyr ac arolygwyr y gellid ei chynyddu i 1:10 heb effeithio ar ansawdd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai ysgolion wneud cais am eithriad lle, er enghraifft, y'u lleolir mewn ardaloedd gwledig iawn neu lle mae ganddynt nifer sylweddol o blant ag anghenion ychwanegol fel AAA neu Gymraeg/Saesneg oherwydd ni fyddai'n ymarferol cynyddu'r gymhareb.	8 tud. 38
19	Hyrwyddo cydberthnasau gwaith agosach rhwng, er enghraifft, staff cynghori a darparwyr Hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) a rhwng darparwyr HCA eu hunain er mwyn cefnogi cysondeb hyfforddiant cychwynnol athrawon ac ansawdd addysgu athrawon sydd newydd gymhwyso (ANGau). Nodi ysgolion a gynhelir lle caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu'n dda i fyfyrwyr ymweld â hwy a/neu fynd ar leoliadau.	9 tud. 41
20	Ystyried ei gwneud yn ofynnol i Athro cymwys arwain ymarfer ym mhob dosbarth Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys dosbarthiadau meithrin).	9 tud. 41
21	Egluro a diffinio rôl y 10% o leoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n cefnogi athrawon. Dylid sicrhau bod pob lleoliad nas cynhelir a ariennir sy'n gymwys yn derbyn y cymorth hwn a'i fod yn effeithiol. Os oes adnoddau ar gael, dylai'r fath gymorth gynyddu i 20%.	9 tud. 41
22	Hyrwyddo hyfforddiant a chymwysterau pellach athrawon o fewn y Cyfnod Sylfaen i Lefel Meistr, gan gynnwys Rhaglen y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Dylai dysgu ar y lefel hon gael ei gynllunio i gefnogi a gwella ymarfer yn y Cyfnod Sylfaen ac effeithio ar arweinyddiaeth a'r defnydd effeithiol o CAau yn ogystal â chefnogi dealltwriaeth bellach o addysgeg ac ymarfer y Cyfnod Sylfaen, meddwl beirniadol a sgiliau gwerthuso a chofnodi.	9 tud. 41
23	Adolygu'r lefel o gymorth sydd ar gael i ddarparwyr y Cyfnod Sylfaen yn y sector cyfan gan staff datblygu consortia ac awdurdodau lleol, sefydliadau mantell ac athrawon blynyddoedd cynnar er mwyn nodi bylchau a sicrhau ei fod yn addas.	9 tud. 41

2. Cyflwyniad

2.1 *Polisi Cymreig*: Mae datblygu a chefnogi profiadau blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, i blant 3-7 oed, wedi bod yn un o nodau Llywodraeth Cymru ers cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen newydd yn 2004 ac yn dilyn datganoli yn 1999. Roedd y Cyfnod Sylfaen yn rhan o newid a datblygiad polisi mawr a gyflwynwyd er mwyn cael y gorau i Gymru (CCC, 2001) ac roedd yn cynnwys newid radical mewn polisi a neilltuo arian i'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 oed. Fel rhan o'r gwaith o bennu'r cyfeiriad newydd hwn a rhoi pwyslais ar y Cyfnod Sylfaen, datblygwyd y Cyfnod Sylfaen - Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant o 3 i 7 oed (APADGOS, 2008) a chafwyd cymarebau oedolyn i blant uwch (1:8 mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a dosbarthiadau derbyn; 1:15 ym Mlynyddoedd 1 a 2), adnoddau ychwanegol ar gyfer ysgolion er mwyn datblygu amgylcheddau dysgu awyr agored, 10% o gymorth amser athro cymwys ym mhob lleoliad nas cynhelir a ariennir, modiwlau hyfforddi cyffredinol newydd, Swyddogion Hyfforddi a Chymorth ym mhob awdurdod lleol, cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru mewn modd gofalus (a ddechreuodd gyda chynllun peilot yn 2004/5 ac a wnaeth gynnwys pob ysgol a gynhelir a lleoliad nas cynhelir a ariennir erbyn 2008/9). Ymhlith y datblygiadau polisi mwy diweddar mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013a) sy'n dangos ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i'r Cyfnod Sylfaen ac yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol o ran y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â strategaethau eraill a gynlluniwyd i 'wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau pob plentyn yng Nghymru' (t3). Mae'n edrych y tu hwnt i'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys pob plentyn o'r cyfnod cyn geni i'r diwrnod cyn iddo droi'n wyth oed. Un strategaeth ychwanegol sy'n hynod bwysig yma yw gweledigaeth a chyflwyniad Dechrau'n Deg i blant 0-3 oed, sy'n darparu ar gyfer nodi anghenion posibl ar y cam cynharaf posibl er mwyn atal unrhyw oedi datblygiadol a chefnogi cyfleoedd addysgol plant pan fyddant yn dechrau'r ysgol.

2.2 *Sail dystiolaeth Genedlaethol a Rhyngwladol*: Gwnaeth Cymru'r penderfyniadau a'r newidiadau hyn a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth gan fod ymchwil genedlaethol a rhyngwladol yn tynnu sylw at bwysigrwydd ansawdd addysg a gofal plentyndod cynnar (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013a). Gosododd profiadau cynnar y sail ar gyfer yr holl ddysgu (Sylva et al., 2004; Allen, 2011), gallant leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â chefnidir rhieni a statws economaidd-gymdeithasol (West et al., 2010; Manning et al., 2010) a gallant gael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar dwf economaidd a ffyniant yn gyffredinol (Melhuish, 2004; Ho et al., 2010; Field, 2010; EIU, 2012). Ymhlith nodau penodol Llywodraeth Cymru roedd yr awydd i godi lefelau sgiliau sylfaenol, goresgyn anfantais gymdeithasol, hyrwyddo iaith a thraddodiadau Cymru a chreu cymuned gref a ffyniannus yn economaidd a oedd yn croesawu amlddiwylliant (CCC, 2001).

2.3 *Monitro effeithiolrwydd*: Er mwyn monitro effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen comisiynwyd sawl gwerthusiad gan Gymru. Mae rhai o'r rhain wedi cael eu cwblhau fel *Monitoring and Evaluation of the Effective Implementation of the Foundation Phase (MEEIFP) Project Across Wales – Foundation Phase Pilot: Final Evaluation Report Roll out age 3 – 6 (2004-2006)* (Siraj-Blatchford et al., 2006), ac ymchwil SQW *Exploring Education Transitions for pupils aged 6 to 8 in Wales* (SQW: Morris et al., 2010). Mae eraill yn mynd rhagddynt ac yn cynnwys: *The Independent Evaluation of the Foundation Phase in Wales* gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD); *The Regulation, Registration and Inspection Review (RR&IR)* gan Graham; a'r Archwiliad annibynnol cyflym hwn. Cafodd yr Archwiliad ei gomisiynu o fis Medi 2013 am chwe mis er mwyn helpu i bennu cyfeiriad polisi ar y cyd ag adroddiadau terfynol y Gwerthusiad Cenedlaethol (WISERD) a'r RR&IR.

2.4 *Canfyddiadau gwerthusiadau blaenorol*: Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar werthusiadau cynharach a pharhaus. Gwerthusodd Siraj-Blatchford et al., (2006) ddwy flynedd gyntaf (2004-2006) gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgolion a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir peilot. Nodwyd bod ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ysgolion a gynhelir yn uwch nag yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir, lle'r oedd ymarferwyr yn fwy tebygol o feithrin datblygiad deallusol plant yn ogystal â'u lles emosiynol-gymdeithasol. Mae'r canfyddiad hwn yn debyg i rai astudiaethau eraill (e.e. Sylva et al, 2004) lle ymddengys fod cymwysterau ymarferwyr, yn enwedig athrawon graddedig, yn ffactor hollbwysig o ran ansawdd darpariaeth. Gan mai dim ond dwy flynedd gyntaf y broses weithredu a ystyriwyd gan y gwerthusiad hwn, roedd yn anodd pennu'r effaith lawn ar safonau, ond nododd canfyddiadau rhanddeiliaid nifer o ganfyddiadau cadarnhaol a oedd yn gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen. Ymhlith y rhain roedd effaith gadarnhaol ar brofiadau addysgol plant drwy well rheolaeth a threfn (a fu'n bosibl drwy gymarebau llai) a gwell cyfleoedd i ddysgu ac amgylchedd dysgu gwell. Nodwyd hefyd i ymarferwyr ddweud wrthynt fod y cwricwlwm yn cefnogi dysgu'r plant yn fwy gan ei fod yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar addysgeg chwarae dysgu gweithgar drwy brofiad. Yn dilyn yr ail flwyddyn o weithredu, gwelodd Siraj-Blatchford et al (2006) fod safonau wedi dirywio o ran llythrennedd a rhyngweithio o gymharu â'r flwyddyn gyntaf. Priodolwyd hyn i lai o gynllunio ar gyfer anghenion unigol a diffyg dealltwriaeth o'r addysgeg chwarae a thrwy brofiad. Gwnaed nifer o argymhellion a gaiff eu trafod, lle bo'n berthnasol, ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Yn 2010 canolbwyntiodd SQW ar y cynllun peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar, ynghyd â heriau, buddiannau a phrofiadau plant wrth bontio o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2 a sut roeddent yn wahanol i'r rhai wrth bontio o Gyfnod Allweddol 1 i Gyfnod Allweddol 2 (SQW: Morris et al., 2010). Nodwyd bod athrawon a disgyblion o'r farn bod y rhan fwyaf o blant, p'un a oeddent yn pontio o'r Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 1, yn edrych ymlaen at symud i Flwyddyn 3. Roedd rhai athrawon Cyfnod Sylfaen o'r farn bod cynlluniau pontio yn fwy hwylus o fewn y

Cyfnod Sylfaen nag o'r blaen, ond ni ellid gwneud unrhyw gysylltiad pendant rhwng cynlluniau pontio gwell a'r Cyfnod Sylfaen ar y pryd. Wrth ystyried y Cyfnod Sylfaen yn fwy cyffredinol, nodwyd bod y rhan fwyaf o ymarferwyr o fewn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn gyfarwydd â'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, roedd y broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn amrywio ac roedd rhai tensiynau o ran oedran a grwpiau gallu disgyblion ynghyd â'r gwaith paratoi roedd ei angen i'w helpu i fodloni gofynion Cyfnod Allweddol 2. Nodwyd bod angen mwy o hyfforddiant, arweiniad a chymorth ymarferol. Argymhellwyd y dylai ysgolion ddatblygu athroniaeth gyffredin yn unol ag ethos y Cyfnod Sylfaen a bod gan ymarferwyr y cyfle i brofi, cwestiynu a myfyrio ar arferion o fewn y Cyfnod Sylfaen. Awgrymwyd y byddai datblygu arferion ystafell ddosbarth cyffredin o fewn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn helpu i hwyluso cynlluniau pontio. Nodwyd hefyd fod angen i athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon dan hyfforddiant fod yn fwy ymwybodol o arferion Cyfnod Sylfaen a phwysigrwydd cefnogi cynlluniau pontio i Gyfnod Allweddol 2.

Mae The Independent Evaluation of the Foundation Phase in Wales gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) wedi esgor ar dri adroddiad a oedd ar gael i ni eu hystyried. Mae ei werthusiad yn dal i fynd rhagddo ac felly bydd rhagor o wybodaeth, ynghyd ag argymhellion, ar gael ond nid oeddent wedi'u cyhoeddi eto ar adeg llunio'r fersiwn terfynol o'r adroddiad hwn. Hyd yn hyn maent wedi llunio adroddiad blynyddol ac adroddiad ar ddeilliannau: *Evaluating the Foundation Phase: Annual Report 2011/12* (Taylor et al, 2013) ac *Evaluating the Foundation Phase: the Outcomes of Foundation Phase Pupils (Report 1)* (Davies et al, 2013). O fewn y rhain, cafwyd canfyddiadau cymysg. Ar y naill law nodwyd agweddau cadarnhaol tuag at y Cyfnod Sylfaen gan gynghorwyr a awgrymodd fod hyfforddiant yn chwarae rhan allweddol. Yna nodwyd cymysgedd o brosesau gweithredu da a drwg a oedd, yn ôl eu hawgrym hwy, yn gysylltiedig â chyflwyno a datganoli cymorth a hyfforddiant a oedd yn amrywio rhwng ALLau. Nodwyd dau ffactor allweddol o ran llwyddiant sef 1) agwedd y pennaeth a'r uwch dîm rheoli a 2) sgiliau, cymwysterau a hyfforddiant yr athrawon a'r cynorthwyyr addysgu a dysgu. Yn ogystal, ystyriwyd absenoldeb, a wnaeth esgor ar ganlyniadau cymysg unwaith eto, ond cafwyd bod gostyngiad bach mewn lefelau absenoldeb mewn ysgolion ar gam cyflwyno terfynol y Cyfnod Sylfaen. Yn olaf, gwelwyd rhai awgrymiadau petrus y gallai safonau mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth fod wedi gwella ychydig. Trafodir ei drydydd adroddiad, sef *Evaluating the Foundation Phase: Policy Logic Model and Programme Theory* (Maynard et al, 2012) yn fanylach yn adran 4.

3. Y broses archwilio

3.1 Yr Archwiliad: Yn ystod haf 2013 cyhoeddodd Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y byddai Archwiliad o'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gynnal dros y chwe mis dilynol (rhwng mis Medi 2013 a mis Mawrth 2014). Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Iram Siraj a Denise Kingston o'r Athrofa Addysg, Prifysgol Llundain i gynnal Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen. Cytunwyd ar gwmpas yr Archwiliad ac fe'i nodwyd yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel a ganlyn:

- Deall pa mor dda y caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu ledled Cymru
- Egluro sut y caiff sgiliau datblygu iaith, llythrennedd a rhifedd eu hymgorffori ym mhob MD mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir ar gyfer pob grŵp oedran
- Mesur pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ymdrin â gwella ansawdd dysgu i blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel
- Pennu sut a phryd y mae plant yn ymuno â'r Cyfnod Sylfaen a sut y caiff dilyniant, yn enwedig o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen ac yna Gyfnod Allweddol 2, ei ddangos neu sut y gellir gwneud hynny
- Nodi lle ceir amrywiaeth ansawdd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, y gweithlu a phrofiad y plentyn
- Nodi pa mor dda y caiff egwyddorion a gofynion y Cyfnod Sylfaen eu hymgorffori o fewn HCA a DPP
- Gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

Roedd cylch gorchwyl yr Archwiliad hwn yn seiliedig ar gwmpas eang ac o ystyried yr amserlen fer canolbwyntiodd ar yr agweddau hynny a fyddai fwyaf tebygol o lywio polisiau yn y dyfodol. Canolbwyntiodd yr Archwiliad ar randdeiliaid allweddol, arbenigwyr ac arfer gorau mewn perthynas â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ac ystyriodd ymhellach sut roedd y Cyfnod Sylfaen yn cefnogi plant unigol, eu teuluoedd a'u cymunedau yn ogystal ag agweddau ar arweinyddiaeth (gan gynnwys yr agenda safonau), cymwysterau, hyfforddiant a chyfnodau pontio.

Un o brif egwyddorion yr Archwiliad oedd defnyddio'r Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen a oedd yn mynd rhagddo (WISERD). Ar adeg yr Archwiliad yr unig ddeunyddiau oedd ar gael i ni oedd y rhai a gyhoeddwyd eisoes ar wefan Llywodraeth Cymru.

3.2 Ymgynghoriadau'r Archwiliad: Casglodd yr Archwiliad ei dystiolaeth drwy gyfres o ymgynghoriadau ac arsylwadau a ddisgrifir yn y tabl o dystiolaeth yr Archwiliad isod.

Tabl 2 Ymgynghoriadau'r Archwiliad

Dull	Disgrifiad	Nifer a gwblhawyd
1.Grŵp Gorchwyl a Gorffen	Yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o Gymru, gan gynnwys ESTYN, AGGCC, ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, lleoliadau nas cynhelir a ariennir, PPA Cymru, yr Adran Addysg a Sgiliau, consortia ac awdurdodau lleol, cynghorwyr, Dechrau'n Deg.	4 cyfarfod, 12 awr
2. Ymweliadau ag ysgolion a lleoliadau da a rhagorol	Ymwelwyd ag ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir Cyfrwng Cymraeg a Saesneg da a rhagorol yn y de a'r gogledd. Cafodd y sectorau canlynol eu cynnwys: 1. Lleoliadau nas cynhelir a ariennir ar gyfer plant 3 a 4 oed (x3) 2. Ysgolion a gynhelir ar gyfer plant 3 a 4 oed (gan gynnwys y rhai sy'n rhan o ysgol gynradd) (x4) 3. Ysgolion a gynhelir ar gyfer plant 5-7 oed (x4) Yn ystod yr ymweliadau, arsylwyd arferion ac amgylcheddau, cyfwelwyd ag arweinwyr a staff allweddol a gwelwyd gwaith cynllunio enghreifftiol a thystiolaeth bapur arall.	N = 11
3.Grwpiau ffocws	Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys arweinwyr ac aelodau eraill o staff o ysgolion a lleoliadau da a rhagorol ledled y de a'r gogledd, gan gynnwys ysgolion a lleoliadau Cyfrwng Cymraeg (roedd yr athrawon/ymarferwyr hyn yn dod o ysgolion a lleoliadau nad ymwelwyd â hwy). Cynrychiolwyr o wahanol ALLau a chonsortia, athrawon cynghori, tiwtoriaid addysg bellach sydd ynghlwm wrth hyfforddiant cychwynnol athrawon, sefydliadau aelodaeth gofal plant (h.y. NDNA, PPA Cymru, Mudiad Meithrin a PACEY) a Cyngor Gofal Cymru (CGC). Trefnwyd y chwe grŵp ffocws (awr a hanner yr un) i gynnwys personél â diddordeb penodol yn y sectorau canlynol: 1. Lleoliadau nas cynhelir a ariennir ar gyfer plant 3 a 4 oed (x2) 2. Ysgolion a gynhelir ar gyfer plant 3 a 4 oed (gan gynnwys y rhai sy'n rhan o ysgol gynradd) (x2) 3. Ysgolion a gynhelir ar gyfer plant 5-7 oed (x2)	6 grŵp, Cyfanswm Yn bresennol =67
4. Holiaduron	Dosbarthwyd holiaduron ar-lein i'r grŵp G a G, yr ysgolion a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir yr ymwelwyd â hwy a phob aelod o'r grwpiau ffocws. Fe'u cwblhawyd yn unigol neu yn dilyn trafodaeth â chydweithwyr fel ymateb ar y cyd.	N = 75

Aeth yr Archwiliad ati i gasglu gwybodaeth a dilysu canfyddiadau mewn pedair prif ffordd ac rydym yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a wnaeth roi o'u hamser i siarad â ni, caniatáu i ni ymweld â hwy a chyflwyno eu barn drwy'r holiaduron. Yn arbennig, rydym yn ddiolchgar iawn am broffesiynoldeb a chefnogaeth yr Adran Addysg a Sgiliau yn ystod yr Archwiliad, a oedd yn aelodau o'r

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac a drefnodd gyfarfodydd, ymweliadau a grwpiau ffocws ar ein rhan. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru (gweler Atodiad 1 am restr o aelodau) a gweithredodd fel grŵp arbenigol a wnaeth helpu i lunio'r holiaduron, cwblhaodd pob un holiadur a dilyswyd y themâu wrth iddynt godi, roeddent yn ffynhonnell amhrisiadwy o dystiolaeth a beirniadaeth.

Roedd yn fraith cael ymweld ag ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n dangos arfer gorau. Fel rhan o'r ymweliadau hyn cafwyd trafodaethau ag arweinwyr ac aelodau allweddol o staff, arsylwadau o fewn y Cyfnod Sylfaen a'r amgylcheddau ffisegol, a chasgliad o ddeunyddiau ychwanegol fel prosiectysau a gwaith cynllunio. Yn dilyn hynny, cwblhaodd yr holl ysgolion a gynhelir a'r rhan fwyaf o'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir holiaduron.

Yn olaf, ond nid lleiaf, rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys athrawon ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir da a rhagorol, na wnaethom ymweld â hwy, yn ogystal â chynrychiolwyr o wasanaethau a sefydliadau sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Roeddent yn fywiog ac yn llawn gwybodaeth a gwnaethant gefnogi barn eang a chyfredol am y broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd. Cefnogodd y grwpiau ffocws y gwaith o ddilysu canfyddiadau blaenorol ac roeddent yn fodd i ni 'dreiddio'n ddyfnach' i rai materion a gododd yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a/neu yn ystod ymweliadau neu grwpiau ffocws blaenorol. Yn dilyn hynny, gwnaeth llawer o aelodau'r grwpiau ffocws hefyd gwblhau holiadur manwl.

Tra cafodd llawer o'r holiaduron eu cwblhau'n unigol roedd eraill yn ymatebion ar y cyd e.e. gan bob aelod o staff mewn ysgol sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen, rhwydwaith o leoliadau nas cynhelir a ariennir neu aelodau o fforymau rhanbarthol ac ati. Nid yw'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, yr ysgolion a gynhelir, y lleoliadau nas cynhelir a ariennir a'r rhai a gwblhaodd holiadur wedi cael eu henwi yma er mwyn parchu eu cyfrinachedd.

3.3 Y canfyddiadau a'r argymhellion: Mae canfyddiadau ac argymhellion yr Archwiliad wedi'u cyflwyno o dan y prif benawdau y cytunwyd arnynt yn y cylch gorchwyl. Dechreuwn drwy edrych ar ddarlun mawr gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ac yna awn ati i ystyried y materion penodol ynghylch safonau, anfantais, cyfnodau pontio, arweinyddiaeth, cymwysterau a hyfforddiant.

Er i ni ymweld a siarad â staff o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, nid ydym wedi gwneud unrhyw sylwadau penodol ar y brif iaith a ddefnyddir, gan fod yr argymhellion yr un mor berthnasol i'r ddwy.

Nid oedd lleoliadau nas cynhelir nas ariennir yn rhan o gylch gwaith yr Archwiliad, felly nid ymwelwyd â hwy ac ni ofynnwyd cwestiynau penodol amdanynt. Drwy ein trafodaethau â grwpiau ffocws a chyfarfodydd eraill, fodd bynnag, deallwn fod rhai o'r lleoliadau hyn yn cefnogi addysg a gofal plant drwy weithredu'r Cyfnod Sylfaen tra

bod eraill ddim yn gwneud hynny. Yn ogystal, caiff rhai lleoliadau o'r fath eu gwahodd i gael hyfforddiant Cyfnod Sylfaen ac maent yn gallu derbyn tra bod eraill ddim; nid yw hyfforddiant ar gyfer lleoliadau nas cynhelir yn gyson nac wedi'i warantu ledled y wlad. Felly, ymddengys yn bwysig, wrth gynllunio hawl plant a dyfodol gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, y dylai'r anghysondebau hyn gael eu hystyried er mwyn sicrhau bod pob plentyn 3-7 oed yn cael yr un profiadau a chyfleoedd.

O fewn yr holl adrannau canlynol, mae'r trafodaethau yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pennawd: cwestiwn allweddol a gymerwyd o nodau'r Archwiliad. Mae pob adran yn cynnwys cyfres o isadrannau sydd wedi'u rhifo ac sydd ag is-benawdau fel bod modd cyfeirio at y trafodaethau a'r materion a arweiniodd at yr argymhellion sy'n ymddangos ar ddiwedd pob adran. Fel rheol, bydd adrannau unigol yn dechrau drwy amlinellu'r cyd-destun rhyngwladol ac yna gyd-destun Cymru, disgrifiad o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yna ddisgrifiad o weithredu aneffeithiol. Wrth drafod gweithredu aneffeithiol, nodir nifer o faterion sy'n ymwneud â'r rhestr o argymhellion ar ddiwedd pob adran. Mae'r rhan fwyaf o'r adrannau yn dilyn y fformat hwn heblaw am adran 4 sydd â chylch gwaith llawer ehangach na'r adrannau eraill. Mae'n dechrau drwy edrych ar y cyd-destun rhyngwladol ac ystyried fframweithiau gofal ac addysg plentyndod cynnar effeithiol cyn edrych ar fframwaith Cyfnod Sylfaen Cymru (APADGOS, 2008). Dilynir hyn gan ddisgrifiad o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yna nifer o faterion gwahanol sy'n ymwneud â gweithredu aneffeithiol.

4.Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu ledled Cymru?

4.1 Fframweithiau Plentyndod Cynnar Effeithiol: Rhydd fframweithiau effeithiol ganllawiau sy'n helpu staff i egluro eu nodau addysgeg, darparu strwythur ar gyfer y diwrnod, canolbwyntio ar asesu, cynllunio a dilynant a chefnogi'r gwaith o ganolbwyntio ar yr agweddau pwysig ar ddatblygiad plant (Siraj-Blatchford, 2004). Gwyddys bod negeseuon allweddol a chanllawiau o fewn fframweithiau, fel y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (APADGOS, 2008), yn cefnogi ansawdd gwahanol fathau o ddarpariaeth ac ar gyfer gwahanol grwpiau o blant ar yr amod eu bod yn glir ac wedi'u cyfleu'n dda (OECD, 2006). Dylai fframwaith da helpu ysgolion a lleoliadau i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar blant ar gyfer y cyfnod addysgol nesaf a dysgu pellach a hwyluso pontio rhwng lefelau addysgol (UNESCO, 2004), tra hefyd yn caniatáu mân addasiadau sy'n gweddu i ddiwylliant ac anghenion amrywiol ar eu traws a'r tu mewn iddynt (OECD, 2006).

4.2 Fframwaith Cyfnod Sylfaen Cymru: Yng Nghymru, datblygwyd y Fframwaith Cyfnod Sylfaen (APADGOS, 2008) a chanllawiau cysylltiedig gan ystyried llawer o athroniaethau ac arferion addysg a gofal plentyndod cynnar sefydledig a werthfawrogi eraill ledled y byd. Yn eu hadroddiad gwerthuso 'Evaluating the Foundation Phase: Policy Logic Model and Programme theory' aeth Maynard et al (2012) ati i gynnal dadansoddiad gofalus o'r hyn sy'n debyg i raglenni eraill fel Reggio Emilia yng ngogledd yr Eidal, Te Whāriki yn Seland Newydd, ymarfer blynyddoedd cynnar yn Sgandinafia a'r Ymarfer sy'n Briodol i Ddatblygiad mewn lleoliadau HighScope yn UDA. Ystyriwyd yr addysgeg o fewn y dogfennau polisi a'r hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen yn fanwl ac awgrymwyd bod cysylltiad agos rhwng y Cyfnod Sylfaen a systemau addysg a gofal plentyndod cynnar gwahanol a gaiff eu parchu a'u gwerthfawrogi'n rhyngwladol a bod elfennau ohonynt yn perthyn iddo.

4.3. Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn Effeithiol yng Nghymru: Er bod cryn amrywiad ledled Cymru, drwy'r Archwiliad bu modd ymweld a siarad ag athrawon ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir da a rhagorol a lleoliadau nas cynhelir a ariennir da yn y de a'r gogledd (fel y'u pennwyd gan Estyn. Nododd yr Archwiliad fod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu rhoi ar waith i bob diben yn yr ysgolion a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir hyn, er bod hynny mewn ffyrdd ychydig yn wahanol ac, ar adegau, gyda pheth amrywiad rhwng oedrannau. Roedd gan yr ymarferwyr a oedd yn gweithio yno syniad clir o'r hyn a oedd yn gyfystyr â Chyfnod Sylfaen effeithiol, canolbwyntiwyd ar safonau, cynlluniwyd yn dda ac addaswyd eu haddysgeg yn unol â'r plant a'u teuluoedd. Hefyd, fel rheol, roedd arweinydd y Cyfnod Sylfaen mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau a chyflwyno newid, mewn

ysgolion roedd hyn yn digwydd fel rhan o'r uwch dîm rheoli yn aml. Lle cafwyd gweithredu effeithiol, nodwyd gwelliannau yn neilliannau plant o fewn y Cyfnod Sylfaen a thu hwnt. Nododd lleoliadau fod gwelliannau ym meysydd llythrennedd, rhifedd a lles. Mewn ysgolion, roedd yr effaith i'w gweld fwyaf ym Mlynedd 1 a 2 a'r rhesymau a roddwyd am hyn oedd y ffaith bod addysgeg ac ymarfer wedi bod ar waith ar gyfer dosbarthiadau meithrin a derbyn cyn y newidiadau. Un effaith fawr a nodwyd oedd agwedd y plant tuag at ddysgu: roeddent yn fwy annibynnol a gweithredol. Roedd bechgyn yn enwedig yn ymddangos fel petaent yn ymateb yn dda i'r Cyfnod Sylfaen, gan siarad yn fwy ac ymgysylltu'n fwy â'u dysgu. Yn gyffredinol, roedd y plant yn ymddangos fel petai ganddynt fwy o berchenogaeth o'u dysgu ac yn chwarae mwy o ran ynddo. Yn ddiddorol, mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i'r rhai a nodwyd yn adroddiad blynyddol Estyn yn ddiweddar (Estyn, 2014).

4.4. Amrywiad o fewn y sector a materion arolygu: Cadarnhaodd yr Archwiliad fod cryn amrywiad ledled Cymru, ac erys yr argraff fod ansawdd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn ymddangos yn uwch mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin o gymharu â lleoliadau nas cynhelir a ariennir (gweler Siraj-Blatchford et al., 2006). Yn ddiddorol, cadarnhaodd adolygiad diweddar o lenyddiaeth a wnaeth ystyried diwygiadau i ysgolion a systemau fod gorddibyniaeth ar ddarpariaeth sy'n destun grymoedd y farchnad fel arfer yn llesteirio cyflawniad plant o'r cefndiroedd tlotaf (Hopkins, 2013). Fodd bynnag, roedd yn anodd profi gwahaniaethau mewn ansawdd yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir a ariennir yng Nghymru gan fod y prosesau arolygu (Estyn ac AGGCC) yn hanesyddol wahanol. Yn ogystal, cadarnhaodd adroddiad blynyddol diweddar Estyn fod ei weithdrefnau adrodd ac arolygu yn wahanol rhwng lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ysgolion a gynhelir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen (Estyn, 2014). Felly, mae'n anodd iawn cymharu tebyg at ei debyg o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Er gwaethaf ymdrechion AGGCC ac Estyn i gydweithio a dwyn arolygiadau yn agosach at ei gilydd ni fu modd gwneud hynny oherwydd natur wahanol y ddeddfwriaeth sylfaenol a phrosesau cysylltiedig. Byddai cael un broses arolygu ar y cyd (sy'n cynnwys Estyn ac AGGCC) a gynhelir o fewn y Cyfnod Sylfaen (gan gynnwys holl ddarparwyr plant 3-7 oed) yn ddefnyddiol yn y dyfodol er mwyn nodi ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir rhagorol yn ogystal â'r rhai sydd angen cymorth. Mae'n bwysig gallu cymharu ansawdd o fewn y Cyfnod Sylfaen cyfan er mwyn cynllunio gwelliannau a sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un hawl. O ran y cylch arolygu, er mwyn sicrhau cysondeb profiad, efallai y byddai'n ddarbodus cynnal ymweliadau mwy rheolaidd na chylch chwe blynedd cyfredol Estyn, yn enwedig gyda darparwyr sy'n gwasanaethu'r plant ieuengaf ac mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir lle mae trosiant staff uchel yn gyffredin (Sylva et al., 2004).

Yn olaf, fel y nodwyd uchod, gwelwyd mai ysgolion meithrin yng Nghymru sydd wedi cyflawni rhai o'r enghreifftiau mwyaf effeithiol o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn y gorffennol (Siraj-Blatchford et al., 2006). Fodd bynnag, ymddengys eu bod yn un math o ddarpariaeth Cyfnod Sylfaen y mae newidiadau diweddar wedi cael effaith

negyddol arnynt. Awgryma adroddiadau, dros y degawd diwethaf, o blith y 42 o ysgolion meithrin gwreiddiol mai dim ond 17 sy'n dal i fodoli. Mae angen ystyried hyn ymhellach oherwydd, ar adeg pan fo Cymru yn edrych am fodolau arfer da er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cyfnod Sylfaen, gall hyn fod yn anwybyddu adnodd hanfodol. Er y cydnabyddir bod peth amrywiad ar hyn o bryd yn ansawdd ysgolion meithrin ledled Cymru, mae gan ysgolion meithrin, ar y cyfan, nifer o nodweddion unigryw a allai helpu i weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol, yn arbennig eu natur arbenigol, staff cymwys iawn a'u rôl bosibl fel canolfan gwasanaethau i deuluoedd a chymunedau lleol ac ar gyfer uwchsgilio gwarchodwyr plant a lleoliadau eraill (Early Education, 2014).

4.5 Cyfathrebu: Er gwaethaf ymrwymiad parhaus amlwg Llywodraeth Cymru i'r Cyfnod Sylfaen, fel y mynegwyd yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013a), wrth gasglu tystiolaeth nododd yr Archwiliad fod llawer o staff yn pryderu am ddyfodol y Cyfnod Sylfaen a ph'un a fyddai'n parhau. Ymddengys fod hyn yn gysylltiedig â phryderon nad oedd yn cael ei weithredu'n effeithiol ledled y wlad ym mhob ysgol a gynhelir a lleoliad nas cynhelir a ariennir, bod y mesur sylfaenol cychwynnol wedi'i ddileu ac, yn fwyaf nodedig, gyflwyno profion llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 2 yn ddiweddar a'u ffurfioldeb a oedd, ym marn rhai, yn arwydd bod y llywodraeth yn rhoi'r gorau i athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Arweiniodd y pryder ynghylch dyfodol y Cyfnod Sylfaen at bryderon ynghylch ariannu'r Cyfnod Sylfaen yn barhaus a nododd aelodau grwpiau ffocws yn arbennig fod angen egluro hyn. Ystyriwyd bod y ffactor ariannol yn rhan annatod o waith cynllunio strategol ledled y wlad, er mwyn cefnogi staff o fewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir a datblygu a darparu hyfforddiant a chymorth gan gonsortia a staff ALI yn barhaus. Hefyd roedd angen canllawiau clir er mwyn sicrhau bod y broses o gael gafael ar gyllid yn glir, yn dryloyw ac yn deg ledled y wlad. Yn olaf, mae Cymru wedi newid i strwythur a arweinir gan gonsortia yn ddiweddar ac wedi rhoi'r gorau i ALLau unigol, ac awgrymodd Hopkins (2013) y gall newidiadau o'r fath leihau amrywiad a gwella perfformiad systemau'n gyffredinol. Nododd yr Archwiliad fod rhai pobl o'r farn ei bod yn rhy gynnar i wneud unrhyw sylw ar y newid hwn, ond o ran cyfathrebu, ymddengys fod ansicrwydd ynghylch gwneud penderfyniadau lefel uchel gan nad oedd arbenigwyr y Cyfnod Sylfaen o'r farn bod ganddynt lais mor gryf ynghylch cynllunio strategol ag o'r blaen.

4.6 Addysgeg yn erbyn deilliannau: Cyfeiriodd Maynard et al (2012) at rai anawsterau posibl o fewn fframwaith y Cyfnod Sylfaen (APADGOS, 2008) gan gynnwys tensiwn rhwng addysgeg seiliedig ar chwarae, a ategir gan ddull gweithredu datblygiadol cryf, a disgwyliadau manwl iawn cyfredol y cwricwlwm statudol yn enwedig mewn perthynas â deilliannau Blynyddoedd 1 a 2 (yn arbennig ym meysydd llythrennedd a rhifedd) gan nad oeddent wedi newid yn amlwg o'r rhai a oedd yn ymwneud â deilliannau blaenorol Cyfnod Allweddol 1. Yn ddiddorol, roedd hyn wedi'i gydnabod hefyd o fewn Cymru ac mae Adolygiad o'r Cwricwlwm ac Asesu

yng Nghymru ar waith ar hyn o bryd ac o fewn y Cyfnod Sylfaen rhoddir sylw arbennig i feysydd dysgu iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol.

4.7 Gallu ac adnoddau: Fel rhan o'r Archwiliad, cafodd tensiynau eraill eu cydnabod yng Nghymru, sef bod gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus yn dibynnu ar bawb sy'n chwarae rhan allweddol (gan gynnwys penaethiaid ac athrawon/ymarferwyr arweiniol, athrawon dosbarth, cynorthwyr addysgu, staff meithrin, aelodau pwyllgor, cynghorwyr ac arolygwyr) yn deall yr egwyddorion ac arferion o fewn fframwaith Cyfnod Sylfaen cyffredin a chlr ac yna'n gallu eu rhoi ar waith. Yn amlwg, mae angen ystyried gallu ac adnoddau o ran staff profiadol a hyddysg er mwyn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a welir gan yr ymarfer amrywiol sydd ar waith ledled y wlad. Y rheswm dros hyn yw'r cynnydd cyflym mewn staff er mwyn bodloni cymarebau newydd ac ehangu'r Cyfnod Sylfaen i blant 7 oed. Efallai fod y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar egwyddorion ac arferion hirsefydledig ond oni fydd yr holl staff perthnasol yn deall ac yn cytuno i'r rhain nid yw'n debygol o gael ei weithredu'n effeithiol.

Lle gweithredwyd y Cyfnod Sylfaen yn wael, roedd diffyg cytundeb clir ynghylch sut y dylid gweithredu'r Cyfnod Sylfaen neu fodel Cyfnod Sylfaen. Ymddengys fod hyn yn broblem ledled Cymru yn gyffredinol. O ganlyniad, roedd angen i arweinwyr a phenaethiaid mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir arwain yr ymarfer eu hunain. Mae hyn wedi gweithio'n dda i rai, ond i lawer nad oes ganddynt y wybodaeth na'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol ac ymchwil sy'n ategu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, bu'n broblematig. O ganlyniad i gamsyniadau, ynghyd ag anallu i wir werthfawrogi sut mae plant bach yn dysgu, gan gynnwys cysyniadau o ddysgu drwy chwarae a dysgu drwy brofiad seiliedig ar brosiect, gwelwyd llawer o leoliadau nas cynhelir a ariennir ac ysgolion a gynhelir yn 'gwanhau' ymarfer addysg gynnar effeithiol. Mewn ysgolion a gynhelir, arweiniodd hyn at effaith pendil. Wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen i gychwyn, mewn ysgolion nad oeddent yn deall sut i strwythuro'r amgylchedd a helpu plant i ddysgu drwy chwarae, cafwyd ystafelloedd dosbarth ag amgylchedd chwarae cwbl anhrefnus nad oedd yn gweithio. O ganlyniad, collwyd eu hyder yn y Cyfnod Sylfaen yn gyflym a dychwelyd i'w hen brosesau ac amgylcheddau mwy cyfarwydd a mwy ffurfiol yn aml, fel arfer mewn ymgais i gynnal safonau. Dylai staff sy'n gweithio gyda phlant hŷn gael cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut i strwythuro profiadau, cyfleoedd ac amgylchedd y plant fel bod modd cefnogi a gwella dysgu gyda phwyslais ar ddysgu drwy brofiad yn hytrach na chwarae, gan fod dysgu drwy chwarae yn cael ei gamddeall yn ôl pob tebyg.

4.8. Cefndir ac athroniaeth: Mae angen ystyried cymhlethdodau sy'n deillio o'r ffaith bod gan staff gefndiroedd hanesyddol gwahanol a dulliau blaenorol (hirsefydledig yn aml) o ymdrin ag addysgu a dysgu. Cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, byddai staff a oedd yn gweithio gyda phlant 3 a 4 oed mewn lleoliadau nas cynhelir a'r rhai a oedd

yn gweithio gyda phlant 6 a 7 oed mewn ysgolion fel arfer yn gweld eu rolau mewn ffordd wahanol iawn (Siraj-Blatchford, 2004; Katz, 2011). Mae'n debyg y byddent wedi canolbwyntio ar ofal neu addysg yn gynharach (addysgu yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol) yn y drefn honno. Nododd Siraj-Blatchford et al. (2006) bwysigrwydd cefnogi datblygiad deallusol plant yn ogystal â'u lles emosiynol-gymdeithasol a bod hyn yn digwydd yn fwy rheolaidd mewn ysgolion a gynhelir lle ceir athrawon, gan felly dynnu sylw at fater pwysig mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir. Roedd yr addysgeg seiliedig ar chwarae a welwyd mewn llawer o leoliadau nas cynhelir cyn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn annigonol o ran cefnogi ac ehangu dysgu plant gan mai prin roedd yn cynnwys chwarae wedi'i gynllunio neu'n olrhain cynnydd plant drwy brosesau arsylwi a chynllunio gofalus, a oedd yn cael eu llywio a'u cyfoethogi gan oedolion. Yna, yn y grŵp oedran hŷn, nododd yr Archwiliad adroddiadau bod ysgolion a gynhelir, nad oeddent wedi gallu gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus, yn dychwelyd i ddulliau addysgu mwy ffurfiol a didactig (gweler uchod a'r effaith pendil). Nid yw hyn i ddweud y bydd y Cyfnod Sylfaen yn debygol o edrych yn union yr un peth ar gyfer y grŵp oedran Cyfnod Sylfaen cyfan, dylai ddangos cynnydd ac mae'n debygol o gynnwys cyfarwyddyd mwy penodol a phrofiadau wedi'u cynllunio gyda'r plant hŷn tra'n parhau i gynnal yr elfen dysgu drwy brofiad ynghyd ag agweddau ar ddewis, her a phroblemau i'w datrys a meysydd dysgu sy'n cefnogi ymholiadau annibynnol o fewn yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae'r broses o gyflwyno addysgeg Cyfnod Sylfaen yn debygol o gynnwys llawer o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn y gwaith o newid ymagwedd ac arferion yn llwyr a gwneud newid sylfaenol i athroniaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae plant yn dysgu, y mae angen eu hadlewyrchu yn yr hyfforddiant a'r cymorth a roddir iddynt, er mwyn gwella rôl yr oedolyn yn y gwaith o gefnogi'r Cyfnod Sylfaen.

4.9 Gwneud Gwelliannau: Er mwyn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n effeithiol mae angen i bob aelod o staff wybod bod y Cyfnod Sylfaen yma i aros. Mae angen datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n sicrhau bod pob rhanddeiliad perthnasol yn ymwybodol o ddatblygiadau o fewn y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae angen i bob rhanddeiliad perthnasol feddu ar ddealltwriaeth dda o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen gan mai hyn sy'n allweddol i ddysgu a datblygiad llwyddiannus y plant. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth weithredol am ddysgu drwy brofiad, prosiectau ystyrlon sydd o ddiddordeb i blant, gwaith cynllunio ac asesu er mwyn sicrhau bod sgiliau'n cael eu meithrin o fewn y Cyfnod Sylfaen a chydbwysedd priodol rhwng dysgu ac iddo ffocws a dysgu annibynnol, datblygu addysgeg drwy brofiad, seiliedig ar chwarae a darparu amgylchedd cyfoethog a diddorol o fewn yr ystafell ddosbarth, y tu allan iddi a'r tu hwnt iddi yn seiliedig ar ddiddordebau plant. Dylai staff deimlo'n hyderus wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gan feddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a sut mae plant yn dysgu ac yn datblygu. Mae angen iddynt fod yn hyderus i fyfyrion ar eu gwaith a'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen mewn ffordd feirniadol, gan ddehongli'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n gweddu i'w plant a'u teuluoedd a'r diwylliant o fewn eu

hysgolion/lleoliadau yn hytrach na'i weithredu'n unig (Munton et al, 2002). Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen datblygu hyfforddiant mwy manwl gywir ledled Cymru (gweler Atodiad 2). Hefyd, byddai canfod, hyrwyddo ac ariannu enghreifftiau o ymarfer rhagorol mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir i weithredu fel modelau ac i eraill ymweld â hwy yn cefnogi'r dysgu hwn. Fel rheol, mae systemau addysgol neilltuol yn canfod ffyrdd o ddysgu o'u gorau ac yn defnyddio modelau o arfer da mewn modd strategol er mwyn cefnogi gwelliannau (Hopkins, 2013).

Argymhellion (*noder: nodir yr argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant mewn ffont italig*):

1. Penodi grŵp strategol o arbenigwyr Cyfnod Sylfaen o Gymru i chwarae rôl gynllunio strategol a hirdymor o fewn y Cyfnod Sylfaen. Llunio cynllun 10 mlynedd er mwyn cefnogi'r camau nesaf yn y broses o weithredu a chydgrynhoi'r Cyfnod Sylfaen:

- defnyddio'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru (APADGOS, 2008) fel canllaw.
- datblygu argymhellion allweddol o werthusiadau ac adolygiadau cyfredol a'r Archwiliad hwn.
- datblygu strategaeth gyfathrebu effeithiol ar gyfer Cymru gyfan.
- gweithredu fel cyfrwng ar gyfer holl newidiadau, gwaith cynllunio a gwerthusiadau'r Cyfnod Sylfaen.

2. Ystyried prosesau a gweithdrefnau arolygu cyfredol, gan gynnwys gwneud rhai newidiadau i ddeddfwriaeth er mwyn dwyn ynghyd arolygiaethau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) yn un broses arolygu ar y cyd sy'n cynnwys y ddwy arolygiaeth a gyflawnir ym mhob rhan o'r Cyfnod Sylfaen (grŵp oedran 3-7). Dylai hyn sicrhau bod modd cymharu arolygiadau holl ddarparwyr y Cyfnod Sylfaen (sy'n gwasanaethu plant 3-7 oed). Noder: Mewn ysgolion cynradd dylid parhau i gynnal un arolygiad ond gan gynnwys ansawdd math AGGCC a ychwanegir at y tîm a'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei adrodd ochr yn ochr ag arolygiad Cyfnod Allweddol 2.

3. Nodi lleoliadau/ysgolion rhagorol er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant pob aelod o staff. Nodi dulliau o rannu arfer gorau rhwng ysgolion a gynhelir a phob lleoliad nas cynhelir ac i'r gwrthwyneb.

4. Ystyried hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr o fewn y sector cyfan, gan gynnwys arweinwyr strategol yn y Wlad, consortia, penaethiaid cynradd, staff cynghori, arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a gwasanaethau i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i'r gynulleidfa ac ystyried ei hanes a phrofiadau blaenorol a chynnwys ymchwil sy'n dangos sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi

safonau ac effeithio ar dwf cymdeithasol ac economaidd yn gyffredinol.

5. Sicrhau yr ategir pob modiwl/hyfforddiant gan waith theori ac ymchwil sy'n nodi'n glir werth addysg gynnar effeithiol. Mae angen i'r cysylltiadau rhwng gwaith theori ac ymarfer a rôl bwysig yr oedolyn fod yn amlwg.

6. Datblygu hyfforddiant sy'n pwysleisio ac yn egluro datblygiad sgiliau o fewn y Cyfnod Sylfaen. Dylai modelau ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gael eu rhannu a'u gwerthuso ym mhob grŵp oedran. Sicrhau bod y modelau a'r enghreifftiau hyn ar gael yn hawdd i ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir (ar-lein a/neu drwy ymweliad efallai).

7. Ystyried hawl plant tair oed i addysg a gofal cynnar o ansawdd uchel lle bynnag y mae eu rhieni yn dewis eu rhoi. Efallai y bydd angen hyfforddiant (gan gynnwys mentora gan athro cymwys) ac adnoddau ychwanegol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac nas ariennir er mwyn sicrhau profiad cyfartal

5. Canfyddiadau ac argymhellion: sut y caiff sgiliau datblygu iaith, llythrennedd a rhifedd eu hymgorffori yn yr holl Feysydd Dysgu?

5.1 *Cyd-destun Rhyngwladol:* Mae pwysigrwydd sylfeini da wrth ddatblygu iaith, llythrennedd a rhifedd er mwyn cefnogi dysgu yn ddiweddarach wedi'i ddogfennu'n dda (Sylva et al, 2004; Coghlan et al., 2009). Ystyrir mai sgiliau cyfathrebu a datblygiad iaith cynnar plant yw'r rhagfynegydd gorau o ran datblygiad gwybyddol a pherfformiad yn yr ysgol yn y dyfodol (Rosetti, 1996). Mae ysgolion a lleoliadau sy'n canolbwyntio ar iaith a chyfathrebu yn debygol o wneud cynnydd mawr o ran blaenoriaethau gwella fel cynyddu cyrhaeddiad, gwella ymddygiad a lleihau'r bwlch (Gross, 2013). Yn yr un modd, gwelwyd bod llythrennedd hefyd o fudd i ddysgu a pherfformiad yn yr ysgol yn gyffredinol a bod canolbwyntio yma yn helpu plant i gyflawni ym mhob pwnc cwricwlaidd (Strickland a Riley-Ayres, 2006). Ceir consensws cyffredinol bod modd dysgu mathemateg, yn enwedig pan y'i hystyrir fel astudio patrymau, o oedran ifanc iawn. Er enghraifft, wrth chwarae bydd plant yn aml yn defnyddio syniadau abstract a rhifyddol (swm, maint a siâp) a thrwy fanteisio ar hyn a chwilfrydedd naturiol plant gellir datblygu cysyniadau, dulliau ac iaith fathemategol yn gynnar er mwyn cefnogi dysgu diweddarach (y Cyngor Ymchwil Cenedlaethol, 2009; Montague-Smith a Price, 2012).

5.2. *Dysgu iaith, llythrennedd a rhifedd o fewn y Cyfnod Sylfaen:* Yng Nghymru caiff pwysigrwydd datblygu iaith, llythrennedd a rhifedd ei gydnabod yn dda o fewn fframwaith y Cyfnod Sylfaen (APADGOS, 2008) a chyda chyflwyniad mwy diweddar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer plant 5-14 oed (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013b). Fodd bynnag, nododd yr Archwiliad nad oedd ymarfer wrth gefnogi iaith, llythrennedd a rhifedd o fewn y Cyfnod Sylfaen yn gyson ac weithiau nid oedd yn dilyn egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Nododd Siraj-Blatchford et al. (2006) fod dirywiad yn ansawdd llythrennedd a rhyngweithio yn yr ail flwyddyn yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn ystod y prosiect peilot. Nododd y rhai a fu'n bresennol yng nghyfarfodydd a grwpiau ffocws yr Archwiliad iddynt weld dulliau addysgu llythrennedd ffurfiol yn cael eu cyflwyno cyn i'r plant ddatblygu digon o iaith lafar a dulliau addysgu mathemateg ffurfiol hefyd, fel arfer mewn ymgais camsyniol i godi safonau. Nodwyd bod y defnydd aneffeithiol o staff (yn aml bydd CAau yn gweithio gyda'r plant mwyaf anghenus yn hytrach na'r staff mwyaf cymwys a phrofiadol) a/neu ganllawiau aneglur ynghylch sut y gallai oedolion helpu plant i ryngweithio, datblygu iaith, cyflawni gweithgareddau ysgrifennu/rhifedd a darllen/ysgrifennu/rhifedd a oedd yn dod i'r amlwg yn rhesymau posibl dros hyn. Mae angen i staff gael canllawiau ar gefnogi sgiliau siarad a gwrando, llythrennedd a rhifedd sy'n dod i'r amlwg, cysylltu'r hyn a ddysgir â diddordebau a galluogi plant i ddeall diben a swyddogaeth llythrennedd a rhifedd. Mae angen i staff gael canllawiau ar y ffordd orau o gefnogi datblygiad iaith, llythrennedd a rhifedd drwy

weithgareddau dysgu annibynnol a'r rhai ac iddynt ffocws. Mae angen iddynt ddeall sut i drefnu'r amgylchedd er mwyn rhoi cyfleoedd niferus i blant ymarfer eu hiaith, llythrennedd a rhifedd ar lefel sy'n briodol. Yn ogystal, mae angen iddynt deimlo'n hyderus i addysgu agweddau ar lythrennedd a rhifedd ar y lefelau priodol a chefnogi rhieni/gofalwyr wrth ddatblygu llythrennedd a rhifedd eu plant yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref. Mae angen iddynt deimlo'n hyderus yn yr hyn a wnant, er enghraifft defnyddio caneuon a hwiangerddi i gefnogi ymwybyddiaeth ffonolegol drwy rigymau a chyflythrennu, felly wrth iddynt wneud hyn gallant hefyd dynnu sylw'r plentyn ato.

Yn anffodus, lle na fu hyn ar gael, mae rhai ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir wedi chwilio am ganllawiau ychwanegol eu hunain sydd, yn ôl pob tebyg, wedi arwain at ddiwylliant entrepreneuriaidd a datblygu a mabwysiadu gorddibyniaeth ar gynlluniau gwaith strwythuredig iawn ym meysydd iaith, llythrennedd a rhifedd. At hynny, weithiau caiff y cynlluniau gwaith hyn eu dilyn yn gaeth a'u cyflwyno mewn ffordd fecanyddol iawn heb wneud unrhyw addasiadau ar gyfer plant unigol. Awgrymodd NAEYC (2002), wrth ystyried datblygiad cwricwla amrywiol, ei bod yn hanfodol iddynt ddiwallu anghenion pob plentyn a chanolbwyntio o ddifrif ar y plentyn a'i ddatblygiad. Nodwyd, yn y gymdeithas sydd ohoni heddiw, ein bod yn byw mewn cymunedau sy'n amrywio'n ddiwylliannol gyda phlant o wahanol gefndiroedd a chartrefi a chydabuwyd y gall fod gan y plant hyn anghenion gwahanol y byddai angen i ysgolion a lleoliadau effeithiol addasu ar eu cyfer. Nododd Estyn (2014) y newid hwn tuag at y defnydd o gynlluniau masnachol a chwestiynodd eu dibynadwyedd a'r pryder y gellid eu dilyn heb eu haddasu i anghenion a chynnydd unigol.

5.3 Safonau mewn ysgolion cynradd: Yn ddiweddar mae'r llywodraeth wedi cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013b) ac mae wrthi'n adolygu'r cwricwlwm ac asesiadau (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013c). Dywedodd staff ysgolion cynradd wrth yr Archwiliad ei bod yn rhy gynnar i werthuso effaith y Fframwaith hwn. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y dulliau o fesur deilliannau bob amser yn unol â'r rhai o fewn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (APADGOS, 2008) ac felly fod angen eu dwyn ynghyd. Yn ddiau, bydd yr Adolygiad cyfredol o'r Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru yn ystyried y fath faterion. Cafwyd amrywiaeth barn ynghylch y profion llythrennedd a rhifedd (Dysgu Cymru, 2014) sy'n cyd-fynd â'r fframwaith, gyda rhai pobl o'r farn ei bod yn rhy gynnar i ystyried eu heffaith, tra bod eraill yn gadarnhaol ac eto i gyd eraill yn feirniadol. Nododd rhai fod y broses asesu papur orfodol sy'n rhy ffurfiol yn mynd yn groes i athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at ddychwelyd i ddulliau addysgu ffurfiol mewn ymgais i baratoi plant ar gyfer y profion oni fyddai canllawiau clir ar gael. Fodd bynnag, roedd eraill a oedd yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol yn cydnabod bod angen mesur cynnydd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a gwelwyd bod hyn yn amser priodol i asesu cyflawniadau plant mewn ffordd safonol. Ni nodwyd unrhyw newidiadau arbennig yn y ffordd y cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen o ganlyniad i gyflwyno'r profion. Roedd yr Archwiliad o'r farn na fyddai'r asesiadau yn cael effaith ormodol ar yr addysgeg a'r ymarfer o fewn y Cyfnod

Sylfaen ar yr amod bod y profion yn cael eu cynnal ar ddiwedd y cyfnod neu ar ddechrau Cyfnod Allweddol 2, bod canllawiau clir ar gael a bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n dda yn y lle cyntaf.

Yn ystod y grwpiau ffocws, yn enwedig y rhai a oedd yn cynnwys staff ysgolion cynradd a staff cyngori, trafodwyd asesiadau gryn dipyn. Roedd a wnelo pryder a godwyd yma ag asesiadau athrawon sy'n dilyn y profion ym Mlwyddyn 2 er mwyn dangos dilyniant (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013d). Ar hyn o bryd, mae'r asesiadau ar ddiwedd Blwyddyn 2 (7 oed) yn cynnwys yr athrawon wrth asesu'r plant yn y tri maes dysgu canlynol: iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol a oedd yn briodol ym marn llawer. Fodd bynnag, codwyd pryder ynghylch y broses sgorio, gan fod cyfanswm sgôr yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y meysydd dysgu hyn fel bod gan bob plentyn sgôr gyfunol. Gan fod y sgôr gyfunol yn cynnwys dau beth gwahanol iawn, gydag iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn dangos **cynnydd academiaidd** a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol yn dangos **cynnydd ymddygiadol-gymdeithasol** cytunwyd y byddai gwneud newid a'u cadw ar wahân yn osgoi cymariaethau annilys. Yn ogystal, roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r sgorau hyn fod yn llinell sylfaen ar gyfer asesiadau tebyg a wnaed ar ddiwedd Blwyddyn 6 (11 oed). Byddai hyn yn galluogi'r Adran Addysg a Sgiliau i fesur cynnydd mewn mathemateg, Cymraeg neu Saesneg (yn dibynnu ar yr iaith gyntaf) a lles emosiynol-gymdeithasol yng Nghyfnod Allweddol 2. Byddai hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd ymagwedd fwy cyfannol tuag at les cymdeithasol plant, yn ogystal â llythrennedd a rhifedd, i holl staff ysgolion cynradd.

5.4 Safonau mewn perthynas â phlant 3 a 4 oed: Dywedodd staff ar draws y Cyfnod Sylfaen, gan fod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn dechrau yn 5 oed, ei bod yn bosibl y bydd pwysau o'r brig i'r bôn i gyflwyno elfennau o'r fframwaith yn gynharach ar draws y Cyfnod Sylfaen. Trafododd eraill yr angen i gyflwyno fersiwn o'r fframwaith, canllawiau ar lythrennedd a rhifedd, a fyddai'n addas ar gyfer plant 3 a 4 oed er mwyn osgoi hyn a sicrhau parhad ar draws y Cyfnod Sylfaen. Byddai canllawiau o'r fath yn debygol o gynnwys argymhellion y dylai staff gael eu hannog i helpu plant i chwarae gyda geiriau a synau, caneuon a rhigymau a datblygu eu cysyniadau mathemategol wrth iddynt godi'n naturiol ac yn ystyrlon. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â hwy yr angen i fframwaith addasedig o'r fath fod yn addas ac yn briodol i anghenion y plant iau hyn ac yn arbennig anghenion y plant mwyaf agored i niwed. Dywedodd llawer o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, wrthym, mewn llawer o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir sydd â llawer iawn o ddisgyblion o ardaloedd amddifad yng Nghymru, fod y plant yn dechrau'r Cyfnod Sylfaen gyda geirfa wael, ychydig iawn o iaith, datblygiad emosiynol-gymdeithasol gwael a diffyg annibyniaeth a sgiliau hunangymorth, fel mynd i'r toiled. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i addysg ganolbwyntio ar lafared a chefnogi datblygiad personol a chymdeithasol a gofal ar sgiliau hunangymorth. Felly, byddai angen i unrhyw ganllawiau ychwanegol bwysleisio'r asesiad unigol o sgiliau a galluoedd y plant yn gyntaf er mwyn sicrhau

bod yr addysg a'r gofal yn briodol ac yn cefnogi eu dysgu a'u datblygiad, a dylai hefyd ganiatáu digon o hyblygrwydd i sicrhau bod anghenion pob plentyn yn cael eu diwallu. Mewn geiriau eraill dylai'r addysgu a'r dysgu ddilyn camau datblygu'r plant yn hytrach na'u hoedrannau cronolegol. Felly, ni fyddai angen i'r deilliannau dysgu llythrennedd a rhifedd, a nodir yn y canllawiau/fframwaith, y byddai staff yn gweithio tuag atynt fod yn rhai blynyddol oherwydd byddai hynny'n rhy gyfyngedig ac yn amhriodol ragnodol gan arwain at 'addysgu'r deilliannau'. Dylai'r canllawiau ar llythrennedd a rhifedd, yn cwmpasu'r Cyfnod Sylfaen rhwng 3 a 7 oed, ond cynnwys dwy set o ddeilliannau dysgu a ddylai fod i'w gweld erbyn diwedd y dosbarth derbyn ac yna ar ddiwedd Blwyddyn 2. Hefyd, ni fyddai'n debygol o edrych fel y canllawiau adfer, gan gynnwys o fewn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cyfredol, ar gyfer plant 5 oed a throsodd sydd ar ei hôl hi o gymharu â'u cyd-ddisgyblion.

Argymhellion (*noder: nodir yr argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant mewn ffont italig*):

8. *Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o sut mae iaith, llythrennedd a rhifedd yn datblygu a sut i gefnogi datblygiad plant o fewn y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys rôl bwysig yr oedolyn.*
9. *Datblygu hyfforddiant sy'n cynnwys canllawiau ac enghreifftiau clir o sut mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gweddu i'r Cyfnod Sylfaen, 3-4 a 5-7. Er enghraifft yn y canllawiau 3-4 oed sut y gall caneuon a hwiangerddi bwysleisio dealltwriaeth o synau mewn rhigymau a chyflythrennu.*
10. *Ailystyried y ffordd y caiff yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2) eu sgorio ynghyd â'r meysydd a gaiff eu hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6). Er mwyn sicrhau y gellir mesur dilyniant ystyried asesu'r canlynol: Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol ym Mlwyddyn 2 a Chymraeg/Saesneg, mathemateg, datblygiad personol a chymdeithasol ym Mlwyddyn 6. Sgorio datblygiad personol a chymdeithasol ar wahân, ac nid fel rhan o Saesneg a mathemateg sy'n fwy academiaidd, fel bod modd cymharu tebyg at ei debyg.*
11. *Ystyried cefnogi dilyniant a pharhad drwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy ddatblygu rhywfaint o hyfforddiant a chanllawiau ychwanegol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar ymarfer iaith, llythrennedd a rhifedd i blant 3 a 4 oed, gan sicrhau bod hyn yn briodol i blant o'r fath. Dylai ddilyn eu hanghenion dysgu a datblygu unigol a gweddu i athroniaeth ac ymarfer drwy brofiadau'r Cyfnod Sylfaen.*

6.Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn ymdrin â gwella ansawdd dysgu i blant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel?

6.1Cyd-destun rhyngwladol: Gwyddys bod cysylltiad pwysig rhwng statws economaidd-gymdeithasol (SEG) a chymwysterau rhieni a chyflawniadau plant ac mai tlodi sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau plant rhwng 3 a 7 oed (Coghlan et al, 2009; Siraj-Blatchford a Siraj-Blatchford, 2010). Cwestiwn parhaus i EPPSE oedd p'un a allai profiadau cyn ysgol ac ysgol gynradd neu amgylchedd dysgu yn y cartref cynnar plant (ADC) leihau anghydraddoldeb. Nodwyd bod y ddau yn ffactorau pwysig wrth gau'r bwlch a gwella chyflawniadau (Sylva et al, 2004).

6.2 Gweithredu Effeithiol a deall anfantais: Yng Nghymru roedd llawer o'r staff yn yr ysgolion a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn ymwybodol o effeithiau anfantais ac yn gweithio'n galed i'w goresgyn. Eglurwyd ganddynt fod gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol yn gwneud hyn yn haws gan ei fod yn hyrwyddo gwaith tîm o fewn yr ysgol/lleoliad a gwell cydberthnasau'n gyffredinol (gan gynnwys ag asiantaethau allanol) fel y gellid datblygu dull gweithredu ysgol/lleoliad cyfan. Roedd canolbwyntio ar y plentyn cyfan o fewn y Cyfnod Sylfaen yn golygu bod yr addysgu'n bersonol a bod cymorth yn cael ei dargedu i anghenion unigol fel datblygu iaith a datblygu personol, cymdeithasol. Roedd y pwyslais cynyddol ar addysgu creadigol a'r cymarebau gwell yn fodd i gynnal gweithgareddau cyfoethogi fel teithiau ac ymweliadau â'r ysgolion a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac roedd mwy o gyfle i wella'r ddarpariaeth barhaus er mwyn cynnwys a chyffroi'r plant ac ychwanegu at y budd diwylliannol a chymdeithasol. Awgrymodd rhai o'r ysgolion a gynhelir fod natur dysgu drwy brofiad a chwareus y cwricwlwm yn ymddangos fel petai'n fwy hygyrch i rieni (a nododd rai dynion yn arbennig) na'r cwricwlwm blaenorol ac felly roeddent i'w gweld yn hapusach i ddysgu gyda'u plant yn yr ysgol a gartref. Yn olaf, nodwyd, yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, eu bod yn mwynhau cydberthnasau gwell â rhieni a oedd, yn ei dro, yn golygu eu bod yn fwy tebygol o ymwneud â'r ysgol/lleoliad a manteisio ar unrhyw gyrsiau addysgol a oedd ar gael ynddynt.

6.3 Gweithredu aneffeithiol a deall anfantais: Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r modd y gweithredir y Cyfnod Sylfaen yn gyson ledled y wlad ac mae rhai problemau o hyd gydag ymarferwyr ac athrawon yn deall natur anfantais. Cafodd yr Archwiliad wybod bod adegau lle byddai staff yn dangos agweddau eithrio, yn bwrw'r bai ar rieni/cymunedau ac â disgwyliadau isel o ran plant a'u teuluoedd o ardaloedd amddifad. Roedd eraill, o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, yn methu â chyfathrebu nac ymgysylltu â rhieni. Priodolwyd hyn i ddifffyg empathi ac anallu i ddeall anfantais a'r angen i fynd i'r afael ag ef o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Argymhellion (noder: nodir yr argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant mewn ffont italig):

12. Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr ymchwil i effeithiau anfantais a thlodi a'r ffyrdd posibl o gau'r bwch o ran cyflawniad. Dylai rhannu arfer da o'r ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hynny lle mae hyn yn gweithio'n dda fod yn rhan o'r hyfforddiant yn yr un modd ag ymchwil i gefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref (ADC). Gellid gofyn i ysgolion a gynhelir neilltuo rhywfaint o'u Grant Amddifadedd Disgyblion (neu rywbeth tebyg) i ddatblygiad staff cymorth yma.

7. Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y mae'r Cyfnod Sylfaen yn monitro/ymdrin â chyfnodau pontio a dilyniant, o Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen ac yna Gyfnod Allweddol 2?

7.1 Cyd-destun rhyngwladol: Mae pontio yn anochel ac yn naturiol ym mywyd unrhyw blentyn. Ceir sawl math o bontio gan gynnwys pontio ffisegol, bywyd a seicolegol (Kingston a Price, 2012). Yma canolbwyntir ar y pontio i mewn ac allan o'r Cyfnod Sylfaen. I lawer o blant, dechrau'r Cyfnod Sylfaen yw eu profiad pontio ffisegol mawr cyntaf o'r cartref i ysgol a gynhelir neu leoliad nas cynhelir a ariennir, tra i eraill gall fod yn ail brofiad gan eu bod eisoes wedi mynychu lleoliad nas cynhelir fel Dechrau'n Deg neu leoliad nas cynhelir amgen fel gofal plant cyn eu bod yn 3 oed. Mae cyfnodau pontio yn bwysig ac mae'r rhai sy'n rhan o brofiad addysgol plentyn wedi'u cynllunio i gefnogi dysgu a datblygu parhaus plant, fel mynychu ysgol neu leoliad Cyfnod Sylfaen neu symud i fyny i Gyfnod Allweddol 2. Fodd bynnag, gall cyfnodau pontio nas rheolir yn dda fod yn niweidiol, nid yn unig yn y byrdymor (oherwydd efallai y bydd y plentyn yn teimlo'n bryderus, yn ddryslyd ac yn anghysurus) ond hefyd yn y tymor hwy gan eu bod yn effeithio ar ddysgu a datblygu yn ogystal â'u gallu i ymdopi â chyfnodau pontio yn y dyfodol (Kingston a Price, 2012). Adolygodd Brooker (2008) ymchwil a oedd yn edrych ar symud i ysgolion a gynhelir ac amcangyfrifodd fod rhwng 5 a 10 y cant o blant yn addasu'n wael i fywyd ysgol ac, o ganlyniad, yn parhau i wynebu risg o fethu yn yr ysgol drwy gydol eu hamser yno. Disgrifiodd Fabian (2002) dri chategori o newid sy'n bwysig i'w hystyried er mwyn cefnogi cyfnodau pontio. Yn gyntaf newidiadau ffisegol, sy'n cynnwys amgylchedd newydd sy'n wahanol o ran maint, lleoliad, nifer y bobl ac ati; yn ail, newid cymdeithasol lle mae hunaniaeth y plentyn yn newid (wrth iddo ddechrau mynychu cylch chwarae neu ysgol er enghraifft) fel y gwna ei rwydwaith cymdeithasol a'r bobl y mae'n rhyngweithio â hwy; ac, yn drydydd, newidiadau athronyddol lle gall gwerthoedd, credoau ac ymagweddau at addysg fod yn wahanol iawn i'r rhai a brofwyd eisoes. Categori arall o newid i'w ystyried yma yw'r cwricwlwm a ph'un a yw'n meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i ddysgu ymhellach ac felly yn hwyluso cyfnod pontio llyfn (UNESCO, 2004).

7.2 Y cyd-destun Cymreig: Yng Nghymru nododd yr Archwiliad fod prosesau pontio yn amrywio rhwng cysylltiadau a phrosesau trosglwyddo da i ddim un, a gellir cael llawer o'r rhesymau o wybodaeth yn adran 4. Fodd bynnag, mae'n werth crybwyll rhai materion penodol yma. Yn gyntaf, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir lle'r oedd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n effeithiol, roedd yn helpu staff i ddeall y cefndir damcaniaethol i ddysgu drwy chwarae ac yna'n eu galluogi i adeiladu ar enillion a wnaed o ran Dechrau'n Deg a lleoliadau eraill. Lle'r oedd y Cyfnod Sylfaen wedi'i ymgorffori'n dda ac yn cael ei barchu, roedd yn cefnogi'r holl bontio gan fod y plant wedi meithrin sgiliau dysgu da (fel canolbwyntio,

dyfalbarhad a phendrantrwydd) ac annibyniaeth. Mewn rhai ysgolion a gynhelir a oedd yn croesawu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen, roedd ymarfer Cyfnod Allweddol 2 hefyd wedi'i addasu i fod yn fwy gweithgar a seiliedig ar brofiad. Roedd y staff yn gosod heriau i'r plant eu datrys gan ddefnyddio ymagweddau drwy brofiad uniongyrchol mewn modd tebyg ond mwy haniaethol efallai nag mewn blynyddoedd cynharach. Roedd eu hystafelloedd dosbarth hefyd wedi'u haddasu fel bod mwy o ddewis ac annibyniaeth a dysgu awyr agored. Mae hyn yn ddiddorol gan fod y canfyddiadau hyn yn awgrymu bod rhai ysgolion wedi adeiladu ar rai o'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad SQW ar gyfnodau pontio i mewn i Gyfnod Allweddol 2 (SQW: Morris et al., 2010).

7.3 Cyfnodau pontio: Mae llawer o ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir wedi datblygu eu prosesau eu hunain ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am bontio. Fodd bynnag, nododd llawer o bobl yr angen am adnodd asesu parhaus fel bod gwybodaeth yn gallu cael ei throsglwyddo rhwng ysgolion/leoliadau mewn modd cyfarwydd, defnyddiol a argymhellir. Mae rhai ALLau wedi datblygu systemau olrhain a phontio. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r rhain sy'n parhau gyda'r plant i mewn i ysgolion a gynhelir gan fod llawer o ysgolion a gynhelir yn defnyddio dulliau amgen. Efallai na fydd rhai ysgolion a gynhelir yn defnyddio'r wybodaeth o Dechrau'n Deg o gwbl ac ni wnaiff lleoliadau nas cynhelir hynny o gwbl. Bydd adnodd asesu cenedlaethol parhaus (ac roedd rhai pobl o'r farn y byddai hyn yn cwmpasu geni i ddiwedd yr ysgol gynradd ond roedd pawb yn cytuno y dylai gwmpasu'r Cyfnod Sylfaen o leiaf) yn gofyn am gydgysylltu gofalus oherwydd byddai angen iddo weddu'n dda i fentrau eraill gan gynnwys datblygiad y cwricwlwm cyfredol. Dylai bwysleisio asesiad gan yr athro a'r ymarferydd a bydd yn gofyn am hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau arsylwi fel ffordd o fesur effaith a chynnydd plant, yn ogystal â chefnogi addysgu a dysgu parhaus ac yn y dyfodol. Bydd yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff yn gyfarwydd ag ef, bod y broses gymedroli'n fanwl gywir a bod pob aelod o staff yr un mor gymwys. Efallai y bydd angen i staff mewn lleoliadau nas cynhelir gael cymorth ychwanegol neu feddu ar gymwysterau pellach er mwyn sicrhau eu bod yn gallu mesur cynnydd yn y fath fodd.

Argymhellion (*noder: nodir yr argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant mewn ffont italig*):

13. *Ystyried atgyfnerthu trefniadau pontio drwy hyfforddi'r holl staff dan sylw gyda'i gilydd (staff o bob lleoliad nas cynhelir, Dechrau'n Deg, staff Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 ac ati) Dylai'r hyfforddiant gynnwys ymchwil a gwaith theori cyfredol ynghyd ag enghreifftiau ymarferol o arferion pontio da.*
14. Parhau i ddatblygu (drwy'r Fframwaith Datblygu ac Asesu Blynyddoedd Cynnar) ac yna weithredu proffil asesu sy'n ystyried sgiliau ymarferwyr. Sicrhau bod y proffil hwn yn parhau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) a bod unrhyw elfennau safonol yn cael eu cymedroli. Dylai asesiadau o'r plant ieuengaf fod yn

gyfyngedig i asesiadau arsylwadol gan athrawon/ ymarferwyr. Pan fo plant yn 5 oed (gan weithredu fel llinell sylfaen) ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed y byddai orau i gyflwyno elfennau safonol.

8. Canfyddiadau ac argymhellion: a oes amrywiaeth o ran canolbwyntio ar ansawdd mewn perthynas ag arweinyddiaeth, y gweithlu a phrofiad y plentyn?

8.1 *Cyd-destun rhyngwladol, arweinyddiaeth*: Gwyddys bod ansawdd yr arweinyddiaeth o fewn ysgolion ac addysg a gofal cynnar yn cael effeithiau pwysig ar bob agwedd ar ddysgu a datblygiad plant (Spillane, 2005; Siraj-Blatchford a Hallet, 2014). Mae arweinyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol yn nhrawsnewidiad a gwelliant ysgolion a gwasanaethau (Hopkins, 2013) felly mae'n hynod berthnasol yng Nghymru yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Cyn y gall newid lwyddo rhaid i'r sawl sydd ynghlwm deimlo'n rymus ac yn weithgar yn y broses newid ac mae hefyd yn gofyn am amser mewn perthynas â datblygu proffesiynol, datblygu adnoddau a gwerthuso effaith (Rodd, 2013; Lindon, 2010). Mae arweinwyr yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o helpu eu staff i ddeall y polisiau sylfaenol, nodi unrhyw broblemau (gan eu hailfframio lle bo angen) a chefnogi'r broses weithredu. Mae angen i staff gael amser i drafod a gofyn unrhyw gwestiynau, mae angen iddynt allu myfrio'n feirniadol a dod o hyd i'w hatebion eu hunain. Efallai y bydd angen i arweinwyr helpu staff i adolygu eu credoau a'u tybiaethau presennol, yn enwedig os oes ganddynt farn ddifffygol am blant a theuluoedd, eu hannog i ddadansoddi a gwerthuso eu harfer eu hunain a herio'r ffordd y maent yn rhyngweithio â phlant a theuluoedd (Shonkoff, 2010; Mitchell a Cubey, 2003).

8.2 *Arweinyddiaeth effeithiol yng Nghymru*: Yng Nghymru, roedd yn ymddangos bod gan yr ysgolion a gynhelir a oedd yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol nifer o agweddau cyffredin ar arweinyddiaeth. Yn gyntaf, fel rheol roedd gan y pennaeth sgiliau arwain a rheoli newid generig ardderchog. Yn ail, roeddent yn cydnabod yr angen i arweinwyr feddu ar ddealltwriaeth glir o'r egwyddorion a'r arferion o fewn y Cyfnod Sylfaen. Roedd ganddynt ddiddordeb ac yn ymchwilio i'r Cyfnod Sylfaen eu hunain ond roeddent hefyd yn sicrhau eu bod yn penodi cydgysylltydd Cyfnod Sylfaen â gwybodaeth a phrofiad da o'r Cyfnod Sylfaen. Yn drydydd, yn enwedig os oeddent yn ymdrin ag arweinyddiaeth mewn modd dosrannol neu gydweithredol, roeddent yn sicrhau bod cydgysylltydd y Cyfnod Sylfaen mewn sefyllfa gref i arwain a rheoli newid, yn arbennig cawsant eu cydnabod fel arweinydd ysgol pwysig fel dirprwy bennaeth ac roeddent yn rhan o'r uwch dîm rheoli. Roedd gan y penaethiaid weledigaeth ysgol gyfan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen o fewn eu hysgol ac, i lawer, roedd yr egwyddorion yn gymwys i'r ysgol gynradd i gyd. Roedd data yn chwarae rhan, gan feithrin dealltwriaeth o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu o fewn eu hysgol, ond nid oeddent yn cael eu llywio gan hynny. Roedd y plant (a'u teuluoedd) yn chwarae rhan ganolog ym mywyd yr ysgol a'r dysgu ac roeddent yn ymddiried yn eu staff, a oedd yn gweithio fel tîm, i wneud eu gorau drostynt. Mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir, roedd yn ymddangos fel petai'r arweinwyr a oedd wedi cael hyfforddiant ym maes arweinyddiaeth a oedd yn datblygu'r timau gorau, yn cefnogi

dysgu'r plant, yn meithrin cydberthnasau da â rhieni ac â'r cyfraddau cadw staff gorau.

8.3 Arweinyddiaeth aneffeithiol yng Nghymru: Yn ei hadroddiad blynyddol diweddar, nododd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru mai arweinyddiaeth gref yw un o'r prif ffactorau o ran gwneud gwelliannau, ond bod ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion a gynhelir yn dal i fod yn anghyfartal. Awgrymodd, er mwyn gwneud gwelliannau yma, y dylai ysgolion ddatblygu partneriaethau ag ysgolion eraill, rhieni, asiantaethau ac awdurdodau lleol (Estyn, 2014). Mae hyn yn dangos yr angen am arweinyddiaeth systemau a hyfforddiant ar arweinyddiaeth o fewn ysgolion a gynhelir. Fodd bynnag, mae hyfforddiant ar arweinyddiaeth yn bwysig ar draws y sector (gweler argymhelliad 4 ac adran 4).

Nid yw hyfforddiant ar arweinyddiaeth mewn lleoliadau Cyfnod Sylfaen nas cynhelir a ariennir yn gyffredin, mae'n fwy cyffredin ymhlith arweinwyr Dechrau'n Deg sydd, fel arfer, yn meddu ar gymwysterau ar lefel 4 NVQ neu uwch. Mae hyfforddiant ar arweinyddiaeth ar gyfer athrawon dosbarth hefyd yn brin. Eto i gyd, mae'r ddau arweinydd hyn yn gyfrifol am arwain eraill a chefnogi datblygiad eu timau. Gwyddys bod meithrin a chefnogi gwaith tîm yn gwella ymarfer ac yn helpu cydweithwyr yn y gweithle (Siraj-Blatchford a Hallett, 2014). Dywedodd staff wrth yr Archwiliad, mewn ysgolion a gynhelir lle nad oedd y Cyfnod Sylfaen yn cael ei werthfawrogi, fod yr athrawon gwannaf yn cael eu rhoi yn nosbarthiadau'r plant iau gan fod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ystyried yn 'opsiwn hawdd'. Mewn rhai ysgolion a gynhelir, efallai na fydd cydgysylltydd y Cyfnod Sylfaen yn addysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen hyd yn oed ac felly prin fydd ei ddealltwriaeth o'r heriau a geir ynddo. Neu, fel arall, roeddent ar lefel reoli mor isel nad oedd ganddynt fawr ddim pŵer i wneud unrhyw newidiadau, dylanwadu ar ymarfer gyda staff eraill na chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ar lefel ysgol gyfan.

8.4 Cyd-destun rhyngwladol a Chymreig o ran cymwysterau a chymarebau: Mae ymchwil yn cyfeirio'n gyson at bwysigrwydd staff cymwys i gefnogi dysgu a datblygiad plant o fewn y Cyfnod Sylfaen (Sylva et al 2004; Nutbrown, 2012). Yn dilyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, cynyddodd Cymru gymarebau oedolion i blant a wnaeth, yn ei dro, arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y Cynorthwywyr Addysgu (CAau) mewn ysgolion. Mae cymarebau oedolion i blant yn bwysig o ran ansawdd. yn enwedig gyda phlant iau, ond nid oes dim yn bwysicach i ansawdd nag ansawdd staff (Nutbrown, 2012). Erys cryn ddadlau ynghylch effaith lleihau cymarebau a gwerth CAau i ddysgu plant (Blatchford et al, 2009; Education Endowment Toolkit, 2014). Yn ôl yr 'Education Endowment Toolkit' (2014) gall CAau, ar y cyfan, wneud gwahaniaeth i'r broses o reoli ystafell ddosbarth ond nid i ddysgu a datblygu plant oni fydd hyn wedi'i gynllunio a'i gefnogi'n benodol gyda hyfforddiant effeithiol a myfrio beirniadol ar wersi a dysgu. Ni ddylai'r gwaith o ddatblygu dysgu byth gael ei adael i CAau yn unig ac mae angen i'r defnydd a wneir o CAau a'u heffeithiolrwydd gael ei werthuso o fewn pob ysgol. At hynny, ac yn arbennig o berthnasol yma, y newid yn y

dull o addysgu sy'n bosibl gan ddosbarthiadau llai yn hytrach na'r lleihad fel y cyfryw sy'n gwneud y gwahaniaeth i gyflawniadau ac ymddygiad plant.

8.5 Buddiannau mwy o staff yng Nghymru: Un o effeithiau cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru fu cynnydd cyflym mewn lefelau staffio ac, o ganlyniad, mae staff llai cymwys a rhatach wedi ymuno â gweithlu'r Cyfnod Sylfaen. Mewn ysgolion a gynhelir, y CAau, fel arfer, a gefnogai'r cymarebau newydd ac mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir, lle mae nifer o staff wedi trosglwyddo i ysgolion a gynhelir, mae'r bobl hyn yn debygol o fod yn newydd i'r proffesiwn. Mae a wnelo hyn â'r mater o allu ac adnoddau a drafodwyd yn adran 4. Mewn rhai ysgolion a gynhelir, caiff y CAau eu cynnwys yn eu prosesau DPP a chânt hyfforddiant a chymorth wedi'u targedu. Maent hefyd yn chwarae rhan lawn yng ngwaith cynllunio, asesu a phrosesau eraill y Cyfnod Sylfaen. Yn benodol, o fewn ysgolion, mae'r cynnydd mewn lefelau staffio wedi ei gwneud yn bosibl i ddatblygu ystafelloedd dosbarth dan do ac awyr agored, ac mae wedi arwain at fwy o drafod a rhyngweithio rhwng yr oedolion a'r plant. Hefyd, cafwyd mwy o gyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau dwys i oedolion fel datblygu ardaloedd chwarae rôl, celf a choginio. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ysgolion y byddai modd gostwng cymarebau oedolion i blant mewn dosbarthiadau derbyn i 1:10 ac y byddai hynny'n ddymunol heb beryglu ansawdd. Lle ceir staff addysgu cymwys a hyddysg, gallai hyd yn oed fod yn bosibl gostwng hyn ymhellach i 1:12 heb beryglu ansawdd. Mae'n bwysig cydnabod bod ansawdd yr oedolyn yn bwysicach na'r nifer.

8.6 Staff ychwanegol a chymarebau: Mewn rhai ysgolion a gynhelir yng Nghymru, nid oedd CAau yn cael eu cefnogi'n dda nac yn cyfrannu at y broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen. Yn hytrach, fe'u defnyddiwyd i gefnogi'r gwaith o reoli'r ystafell ddosbarth a rhedeg ymyriadau adferol heb fawr ddim newid yn y dull addysgu i'r hyn a welwyd cyn cynyddu cymarebau. Roedd y fath ddulliau yn fwy cyffredin mewn ysgolion a gynhelir lle nad oedd yr athrawon dosbarth wedi cael y profiad o arwain tîm na'r hyfforddiant angenrheidiol a lle nad oedd y Cyfnod Sylfaen wedi'i ddeall yn dda na'i weithredu'n dda.

Yn ystod yr Archwiliad, nododd rhai athrawon eu bod yn pryderu y gallai cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd arwain at ddefnyddio mwy o CAau i gefnogi rhaglenni ymyrryd tra nododd eraill heb i CAau gael canllawiau priodol ar eu rôl yn cefnogi dysgu plant fod rhai plant yn dod yn rhy ddibynnol ar oedolion. Yn ogystal, roedd pryderon nad oedd gan lawer o CAau ddigon o sgiliau llythrennedd a rhifedd i gefnogi dysgu plant. Yn olaf, codwyd pryder bod yr ymarferwyr blynyddoedd cynnar mwy cymwys mewn lleoliadau nas cynhelir yn symud i weithio mewn ysgolion a gynhelir lle cafwyd cyflogau ac amodau gwell, gan ostwng yr ansawdd ar draws y sector nas cynhelir.

Ymddengys mai prin fu effaith gadarnhaol y newid mewn cymarebau ar leoliadau nas cynhelir a ariennir, gan nad yw eu cymarebau wedi cynyddu. Fodd bynnag, nodir

iddynt golli staff a bod cadw staff yn anodd yn enwedig yn dilyn hyfforddiant NVQ ac os ydynt yn siarad Cymraeg.

Yn ystod ymweliadau ag ysgolion a gynhelir a grwpiau ffocws, gofynnodd yr Archwiliad p'un a oedd y cymarebau yn gywir ar gyfer pob oedran. Yn achos dosbarthiadau derbyn roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno y gallai'r gymhareb gynyddu i 1:10 fel bod modd defnyddio'r arian a oedd yn cael ei arbed ar gyfer hyfforddiant a chymorth.

Argymhellion (*noder: nodir yr argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant mewn ffont italig*):

15. *Datblygu hyfforddiant pwrpasol penodol ar arweinyddiaeth sydd wedi'i gynllunio i gefnogi arweinwyr ym mhob rhan o'r sector, o fewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, ond yn enwedig gan gynnwys penaethiaid cynradd*
16. Sicrhau bod gan y cydgysylltwyr Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir ddigon o wybodaeth a phrofiad i ddeall yr egwyddorion ac arferion o fewn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, argymhellir eu bod yn cael eu graddio ar lefel arwain ddigonol (fel aelodau o'r uwch dîm rheoli, dirprwy bennaeth ac ati) er mwyn gwneud penderfyniadau a chefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol.
17. Sicrhau bod Cynorthwyr Addysgu (CAau) yn cael budd o brosesau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a chymorth o fewn ysgolion a gynhelir a bod hyfforddiant llythrennedd a rhifedd ar gael i'r rheini sydd ei angen. Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ar gyfer CAau o fewn ysgolion a gynhelir. Hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ac adolygu telerau ac amodau gwaith CAau er mwyn denu staff cymwys.
18. Adolygu'r gymhareb oedolion i blant gyfredol mewn dosbarthiadau derbyn. Ar hyn o bryd mae'n 1:8. Cytunodd staff ysgolion cynradd, cyngorwyr ac arolygwyr y gellid ei chynyddu i 1:10 heb effeithio ar ansawdd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai ysgolion wneud cais am eithriad lle, er enghraifft, y'u lleolir mewn ardaloedd gwledig iawn neu lle mae ganddynt nifer sylweddol o blant ag anghenion ychwanegol fel AAA neu Gymraeg/Saesneg oherwydd ni fyddai'n ymarferol cynyddu'r gymhareb.

9. Canfyddiadau ac argymhellion: pa mor dda y caiff egwyddorion a gofynion y Cyfnod Sylfaen eu hymgorffori o fewn HCA a DPP?

9.1 Statws Athro Cymwysedig ac addysgu o ansawdd: Gwelwyd bod athrawon cymwysedig yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu gyda phlant iau mewn nifer o astudiaethau (Sylva et al., 2004; Siraj-Blatchford et al., 2006) At hynny, ansawdd yr addysgu yw'r ffactor pwysicaf o ran deilliannau plant (Barber a Mourshed, 2009). Yn ei dro, mae cysylltiad cryf rhwng ansawdd athrawon a phrofiadau addysgol yr athrawon eu hunain, gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol athrawon (Mussett, 2010). Wrth ystyried ansawdd addysg athrawon ledled y byd daeth Mussett (2010) i'r casgliad y dylai hyfforddiant cychwynnol athrawon gynnwys cydbwysedd o ddarpariaeth sy'n cefnogi gwybodaeth athrawon am gynnwys, eu gwybodaeth am addysgeg a'u profiad ymarferol o ysgolion. Mae pwysigrwydd ansawdd ac effeithiolrwydd athrawon yn amlwg yng Nghymru, gweler er enghraifft yr adolygiad diweddar o hyfforddiant cychwynnol athrawon (Tabberer, 2013).

9.2 Athrawon Newydd Gymhwyso (ANGau): Yng Nghymru, nododd athrawon a chynghorwyr sgiliau amrywiol ymhlith ANGau o ran gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Nodwyd bod ANGau wedi paratoi'n well ar ôl cael lleoliadau mewn ysgolion a gynhelir a oedd yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn dda, lle gallent weld y theori ar waith. Nododd y Sefydliadau Addysg Uwch (AU) a oedd yn ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) brosesau gwahanol ar gyfer cefnogi dealltwriaeth eu myfyrwyr o'r Cyfnod Sylfaen, ac eglurodd llawer sut roeddent yn gweithio i'w gwneud yn fwy cadarn. Pwysleisiodd pob un bwysigrwydd profiadau lleoliadau mewn ysgolion a gynhelir lle gweithredwyd y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

9.3. Athrawon Cymwysedig: Mewn rhai dosbarthiadau meithrin, lle nad yw'n statudol i gyflogi athro cymwysedig, nid yw rhai ysgolion a gynhelir yn penodi athrawon i arwain ymarfer. Mae ymchwil yn awgrymu'n gryf mai arweinwyr sy'n raddedigion sy'n cefnogi ansawdd y dysgu ac addysgu orau (Sylva et al, 2004). Mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir mae mynediad i'r amser athrawon o 10% yn amrywio ac ymhellach mae'r hyn a wna'r athrawon i gefnogi addysgu a dysgu yn amrywio. Dylai canllawiau a hyfforddiant ar gefnogi a mentora, gan gynnwys modelu arfer da yn y Cyfnod Sylfaen, gael eu datblygu ar gyfer athrawon sy'n gweithio yn y sector nas cynhelir a ariennir. Dylai rôl glir ar gyfer yr amser addysgu o 10% gael ei hamlinellu a'i nodi'n glir, ond dylai athrawon hefyd wybod â phwy i gysylltu os oes ganddynt unrhyw bryderon sydd y tu allan i'w cylch gwaith. Lle bo arian ar gael, dylai cynyddu'r mewnbwn hwn i 20% fod yn ddymunol. Yn olaf, er mwyn gwella dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen a chefnogi systemau arwain a rheoli o fewn y Cyfnod Sylfaen, dylai athrawon y Cyfnod Sylfaen ystyried hyfforddiant ôl-raddedig ar lefel Gradd Meistr.

9.4. *Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a hyfforddiant:* Awgrymodd Tatton (2005) mai datblygiad proffesiynol staff yw'r ffordd o wella ansawdd darpariaeth. Yn ogystal ag ystyried HCA, edrychodd yr Archwiliad ar hyfforddiant hefyd, sef un agwedd ar DPP. Yma diffinnir hyfforddiant fel gweithgareddau datblygu proffesiynol sy'n digwydd y tu allan i'r system addysg ffurfiol (Maxwell et al., 2005). Mae Cymru wedi datblygu amrywiaeth o fodiwlau a gynlluniwyd i'w darparu ledled y wlad er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cyfnod Sylfaen gan ALI a/neu bersonél consortia. Mae astudiaethau niferus wedi dangos bod hyfforddiant yn cefnogi ansawdd ac, yn fwy penodol, ddysgu a lles plant (Burchinal et al., 2002; Fukkink a Lont., 2007). Nododd Siraj-Blatchford et al. (2006) fod darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uwch pan roedd y staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gymwys, a'u bod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac addysgeg. Nododd Funnink a Lont (2007) y gall hyfforddiant wella'r gefnogaeth a roddir gan ymarferwyr i ddatblygiad personol a chymdeithasol plant yn ogystal â'u hymwneud gyda'r plant. Yn ogystal, gall gefnogi datblygiadau ieithyddol a chorfforol plant drwy ddarparu profiadau dysgu mwy cyfoethog. Awgrymwyd bod hyfforddiant sy'n cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o ymarfer datblygiadol briodol yn hynod fuddiol. Mae angen i DPP gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cefnogi datblygiad arferion addysgu a dysgu cyffredinol ar draws y Cyfnod Sylfaen. Y ffordd orau o gyflawni hyn fyddai drwy gyfuno dealltwriaeth o theori ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth â gwaith cydweithredol yn yr ysgolion a gynhelir, lleoliadau nas cynhelir a ariennir, gwasanaethau ALLau a chonsortia, a gwasanaethau canolog eraill fel Estyn ac AGGCC a sefydliadau AU (gweler yr adolygiad o lenyddiaeth yn Hopkins, 2013).

9.5. *Hyfforddiant:* Roedd y modiwlau cyffredinol a ddatblygwyd ar ddechrau'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen o ansawdd gwan yn gyffredinol ac, o ganlyniad, fe'u newidiwyd ac fe'u datblygwyd gan ALLau unigol a chonsortia dros y blynyddoedd. Mae rhai fersiynau newydd wedi cael eu rhannu gyda'r Archwiliad ac maent yn welliant sylweddol o gymharu â'r modiwlau gwreiddiol, yn enwedig mewn perthynas â darparu enghreifftiau o amgylcheddau ffisegol o ansawdd uchel. O ystyried y fath newidiadau unigol i ALLau a chonsortia, mae'n anodd pennu a gynigir hyfforddiant cyffredinol mwyach.

Roedd y gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau mewn hyfforddiant a hygyrchedd i bob aelod priodol o staff yn destun pryder i'r Archwiliad ac roedd lefel a chynnwys yr hyfforddiant cychwynnol o leiaf ar goll. Ymddengys fel petai'n targedu'r sector nas cynhelir a ariennir a'r rhai sy'n gweithio gyda'r grwpiau oedran iau. Gwnaed argymhellion penodol ynghylch hyfforddiant drwy gydol yr adroddiad ac maent yn cynnwys: sicrhau ei fod yn 'addas at y diben' ac yn addas ar gyfer ei gynulleidfaoedd; llunio canllawiau ar y ffordd y mae'r Cyfnod Sylfaen yn gweddu i gyfeiriadau polisi cyfredol eraill, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol; gall pob arweinydd (ar lefel consortia yn ogystal â lefel ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir), staff Cyfnod Allweddol 2 a phob lleoliad nas cynhelir gael hyfforddiant perthnasol. Yn ogystal, mae angen i rai meysydd o

ymarfer a gwybodaeth gael eu hatgyfnerthu gan gynnwys: buddiannau'r Cyfnod Sylfaen i bob plentyn, teulu a chymuned yng Nghymru o ran cyfleoedd dysgu a datblygu a thwf economaidd yn gyffredinol; sgiliau arweinyddiaeth; arfer myfyriol; deall sut mae plant yn dysgu ac yn datblygu; effeithiau tlodi ac anfantais; pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y cartref a chefnogi cyfnodau pontio. At hynny, dylid rhoi mwy o bwyslais ar gysylltu theori ac ymchwil ag ymarfer ac, yn arbennig, rôl yr oedolyn wrth gefnogi dysgu a datblygu ym mhob modiwl hyfforddi. Byddai'r gwaith o ddatblygu modiwlau yn y dyfodol yn cael ei gefnogi orau gan arbenigwyr ym maes datblygu hyfforddiant a modiwlau ar y lefelau gofynnol, er enghraifft y Brifysgol Agored neu sefydliad arall sydd â'r un arbenigedd ym maes datblygu plant a hyfforddiant. Yn olaf, mae angen i fodolau clir ac enghreifftiau o ymarfer o fewn y Cyfnod Sylfaen yn y sector cyfan gael eu nodi, bod ar gael a bod yn hygyrch. Gellid rhannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer gorau ar wefan Cyfnod Sylfaen ar yr amod ei bod yn hygyrch ac yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Roedd hygyrchedd a chael y wybodaeth ddiweddaraf yn gwynion cyffredin gan athrawon ac ymarferwyr o ran y wefan ym mhrosiect MEEIFP (Siraj-Blatchford et al., 2006) a byddai'n rhaid osgoi hynny er mwyn i hyn fod yn effeithiol.

Argymhellion (*noder: nodir yr argymhellion sy'n ymwneud â hyfforddiant mewn ffont italig*):

19. Hyrwyddo cydberthnasau gwaith agosach rhwng, er enghraifft, staff cyngori a darparwyr HCA a rhwng darparwyr HCA eu hunain er mwyn cefnogi cysondeb hyfforddiant cychwynnol athrawon ac ansawdd addysgu ANGau. Nodi ysgolion a gynhelir lle caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu'n dda i fyfyrwyr ymweld â hwy a/neu fynd ar leoliadau.
20. Ystyried ei gwneud yn ofynnol i Athro cymwys arwain ymarfer ym mhob dosbarth Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys dosbarthiadau meithrin).
21. Egluro a diffinio rôl y 10% o leoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n cefnogi athrawon. Dylid sicrhau bod pob lleoliad nas cynhelir a ariennir sy'n gymwys yn derbyn y cymorth hwn a'i fod yn effeithiol. Os oes adnoddau ar gael, dylai'r fath gymorth gynyddu i 20%.
22. Hyrwyddo hyfforddiant a chymwysterau pellach athrawon o fewn y Cyfnod Sylfaen i Lefel Meistr, gan gynnwys Rhaglen y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Dylai dysgu ar y lefel hon gael ei gynllunio i gefnogi a gwella ymarfer yn y Cyfnod Sylfaen ac effeithio ar arweinyddiaeth a'r defnydd effeithiol o CAau yn ogystal â chefnogi dealltwriaeth bellach o addysgeg ac ymarfer y Cyfnod Sylfaen, meddwl beirniadol a sgiliau gwerthuso a chofnodi.

23. Adolygu'r lefel o gymorth sydd ar gael i ddarparwyr y Cyfnod Sylfaen yn y sector cyfan gan staff datblygu consortia ac awdurdodau lleol, sefydliadau mantell ac athrawon blynyddoedd cynnar er mwyn nodi bylchau a sicrhau ei fod yn addas.

Rhestr gyfeirio

Allen, G. (2011) *Early Intervention: The next steps. An Independent Report to Her Majesty's Government*, <http://media.education.gov.uk/assets/files/pdf/g/graham%20allens%20review%20of%20early%20intervention.pdf> (cyrchwyd 10/2/2014).

Barber, M. a Mourshed, M. (2007) *How the World's Best-Performing School Systems Come Out on Top*. Llundain: McKinsey and Company

Blatchford, P., Basset, P., Brown, P., Martin, C., Russell, A. a Webster, R. (2009) *Deployment and Impact of Support Staff project. Research Brief*. Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Brooker, L. (2008) *Supporting Transitions in the Early Years*. Maidenhead: Y Brifysgol Agored.

Burchinal, M.R., Cryer, D., Clifford, R.M., a Howes, C. (2002). Caregiver training and classroom quality in child care centers. *Applied Developmental Science*, 6, 2-11.

Coghlan, M., Bergeron, C., White, K., Sharp, C., Morris, M., a Rutt, S. (2009) *Narrowing the gap in outcomes for young children through effective practices in the early years*. Y Ganolfan er Rhagoriaeth a Deilliannau mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (C4EO) www.c4eo.org.uk (cyrchwyd 10/2/2014).

Davies, R., Taylor, C., Maynard, T., Rhys, M., Waldron, S. a Blackaby, D (2013) *Evaluating the Foundation Phase: the Outcomes of Foundation Phase Pupils (Report1)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 43/2013 http://wales.gov.uk/statistiCyfnod Sylfaen-and-research/evaluation-foundation-phase-policy-logic/?status=open&lang=en](http://wales.gov.uk/statistiCyfnod_Sylfaen-and-research/evaluation-foundation-phase-policy-logic/?status=open&lang=en) (cyrchwyd 10/2/2014)

Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (2008) *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi (2013a) *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013b) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. [http://learning.wales.gov.uk/doCyfnod Sylfaen/learningwales/publications/130415-Inf-guidance-cy.pdf](http://learning.wales.gov.uk/doCyfnod_Sylfaen/learningwales/publications/130415-Inf-guidance-cy.pdf) (cyrchwyd 11/2/2014).

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013c) *Cwricwlwm Cymru. Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Cam 1: Llythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach*. [http://wales.gov.uk/doCyfnod Sylfaen/dcells/consultation/131022-curriculum-for-wales-consultation-cy.pdf](http://wales.gov.uk/doCyfnod_Sylfaen/dcells/consultation/131022-curriculum-for-wales-consultation-cy.pdf) (cyrchwyd 12/2/2014)

Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013d) *Trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3*. [http://wales.gov.uk/doCyfnod Sylfaen/dcells/publications/130219-statutory-assessment-arrangements-2012-13-booklet-cy.pdf](http://wales.gov.uk/doCyfnod_Sylfaen/dcells/publications/130219-statutory-assessment-arrangements-2012-13-booklet-cy.pdf) (cyrchwyd 12/2/2014)

Early Education (2014) Maintained nursery schools: hubs for quality in the early years http://www.early-education.org.uk/sites/default/files/NS_Survey_report_lo-res.pdf(cyrchwyd 23/3/2014)

Economist Intelligence Unit (2012) *Starting Well: Benchmarking Early Education across the World*. The Economist Intelligence Unit Ltd.

Education Endowment Toolkit (2014)
<http://educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit/> (cyrchwyd 10/2/2014).

Estyn (2014) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* <http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiad-blynyddol/adroddiad-blynyddol-2012-2013/> (cyrchwyd 12/2/2014)

Fabian, H. (2002) *Children Starting School*. Llundain: Fulton.

Field, F. (2010) *The Foundation Years: preventing poor children becoming poor adults. The Independent Review on Poverty and Life chances.*
<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110120090128/http://povertyreview.independent.gov.uk/media/20254/poverty-report.pdf> (cyrchwyd 10/2/2014).

Fukkink, R. And Lont, A. (2007) 'Does training matter? A meta-analysis and review of caregiver training studies' yn *Early Childhood Research Quarterly* 22, 294-311

Gross, J (2013) *Time to Talk implementing outstanding practice in speech, language and communication*. Abingdon: Routledge.

Ho, D., Campbell-Barr, V. a Leeson, C. (2010) 'Quality improvement in early years settings in Hong Kong and England', *International Journal of Early Years Education*, 18 (3), tt.243 — 258.

Hopkins, D. (2013) 'Exploring the Myths of School Reform' yn *School Leadership and Management: Formerly School Organisation*. 33:4 tt 304-321.

Katz, L. (2011) Current perspectives on the early childhood curriculum yn House, R. (Gol.) *Too much too soon? Early Learning and the Erosion of Childhood*. Hawthorn Press: Stroud.

Kingston, D. a Price, M. (2012) 'Supporting Transitions' yn Edmond, N a Price, M. (Gol) *Integrated Working with Children and Young People Supporting Development from Birth to Nineteen*. Llundain: Sage..

Dysgu Cymru: Codi Safonau gyda'n gilydd (2014) Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. Llywodraeth Cymru
<http://learning.wales.gov.uk/improvementareas/assessment-and-target-setting/national-reading-and-numeracy-tests/?skip=1&lang=cy#/improvementareas/assessment-and-target-setting/national-reading-and-numeracy-tests/?lang=cy> (cyrchwyd 12/2/2014)

Lindon, J. (2010) *Reflective Practice and Early Years Professionalism. Linking Theory and Practice*. Abingdon: Hodder Education.

Manning, M., Hommel, a Smith (2010). "A meta-analysis of the effects of early years developmental prevention programs in at-risk populations on non-health outcomes in adolescence *Children and Youth Services Review* 32, 506–519.

Maynard, T., Taylor, C., Waldron, S., Rhys, M., Smith, R., Power, S. a Clement, J. (2012) *Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen: Model Rhesymeg Polisi a Theori Rhaglen*. WISERD Prifysgol Caerdydd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 37/2012 <http://wales.gov.uk/doCyfnodSylfaen/caecd/research/130318-evaluating-foundation-phase-policy-logic-model-programme-theory-cy.pdf> (cyrchwyd 10/2/2014).

Maxwell, K.L., Field, C.C., a Clifford, R.M. (2005) 'Defining and Measuring Professional Development in Early Childhood Research' yn Zaslow, M. a Martinez-Beck, I. (Gol) *Critical Issues in Early Childhood Professional Development*. Baltimore Maryland: Paul H Brookes.

Melhuish, E. C. (2004) *A literature review of the impact of early years provision on young children, with emphasis given to children from disadvantaged backgrounds*, Llundain: Y Comisiwn Archwilio Cenedlaethol.

Mitchell, L. a Cubey, P. (2003) *CharacteristiCyfnod Sylfaen of Professional development Linked to enhanced pedagogy and children's learning in early childhood settings*. Best Evidence Synthesis. Wellington: Y Weinyddiaeth Addysg. http://www.educationcounts.govt.nz/data/assets/pdf_file/0017/7703/bes-professional-development.pdf (cyrchwyd 10/2/2014).

Montague-Smith, A. a Price, A. (2012) *MathematiCyfnod Sylfaen in Early Years Education* (3^{ydd} Rhifyn) Efrog Newydd: Routledge.

Munton, T., Mooney, A., Moss, P., Petrie, P., Clarke, A. a Woolner, J. (2002) *Research on Ratios, Group Size and Staff Qualifications and Training in Early Years and Childcare Settings*. Norwich: Yr Adran Addysg a Sgiliau.

Mussett, P. (2010) Initial Teacher Education and Continuing Training Policies in a Comparative perspective: Current Practices in OECD Countries and a Literature review on Potential Effects. *Education Working Papers, rhif 48*. Paris:OECD

NAEYC (2002) *Early Learning Standards. Creating the conditions for Success*. http://www.naeyc.org/files/naeyc/file/positions/position_statement.pdf (cyrchwyd 11/2/2014).

CCC. (2001) *Y Wlad sy'n Dysgu*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y Cyngor Ymchwil Cenedlaethol (2009) *MathematiCyfnod Sylfaen learning in Early Childhood. Paths towards Excellence and Equity*. Y Pwyllgor ar Fathemateg Plentyndod Cynnar: Cross, C.T., Woods, T.A., Schweingruber, H (Gol), Y Gymdeithas Addysg, yr Is-adran Gwyddorau Ymddygiadol a Chymdeithasol ac Addysg. Washington DC: Gwasg yr Academiâu Cenedlaethol.

Nutbrown, C. (2012) *Review of Early Education and Childcare Qualifications. Interim report*. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/180927/Review_of_early_education_and_childcare_qualifications_-_Interim_report.pdf (cyrchwyd 10/2/2014).

OECD. (2006), *Starting Strong II: Early Childhood Education and Care*, Paris: OECD.

Rodd, J. (2013) *Leadership in Early Childhood: The Pathway to Professionalism* (3^{ydd} Rhifyn). Maidenhead: Gwasg y Brifysgol Agored.

Rosetti, L.M. (1996) *Communication Intervention: Birth to Three*, Llundain: Singular.

Shonkoff, J.P. (2010) 'Building a New Biodevelopmental Framework to Guide the Future of Early Childhood Policy' *Child Development* cyf 81 (1) tt 357- 367.

Siraj-Blatchford, I. (2004) 'Quality Teaching InThe Early Years'. Yn Anning, A, Cullen, J a Fler, M (Gol) *Early Childhood Education: Society and Culture*. SAGE Publications Ltd, Llundain, tt. 137-148.

Siraj-Blatchford, I. a Hallet, E. (2014) *Effective and Caring leadership in the Early Years*. Llundain: Sage.

Siraj-Blatchford, I. a Siraj-Blatchford, J. (2010) *Improving children's attainment through a better quality of family-based support for early learning*. Y Ganolfan er Rhagoriaeth a Deilliannau mewn Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc http://www.c4eo.org.uk/themes/earlyyears/familybasedsupport/files/c4eo_family_based_support_full_knowledge_review.pdf (cyrchwyd 11/2/2014).

Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Laugharne, J., Milton, E. a Charles, F. (2006) *Monitoring And Evaluation of The Effective Implementation Of The Foundation Phase (MEEIFP) Project Across Wales – Foundation Phase Pilot: Final Evaluation Report Roll out age 3 – 6 (2004-2006)*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Spillane, J.P. (2005) 'Distributed Leadership'. *The Educational Forum*. Cyf 69 tt143 - 150.

SQW - Morris, M., McCrindle, L., Cheung, J., Johnson, R., Pietikainen, A. a Smith, R. (2010) *Archwilio Trosglwyddiadau Addysg Disgyblion 6 i 8 Oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 01/2010

Strickland, D. a Riley-Ayres, S. (2006) *Early Literacy Policy and Practice in the Preschool Years*. New Jersey: Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysg Gynnar.

Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I. a Taggart, B (2004) *The Effective Provision of Pre-school Education (EPPE) Project: Final Report*. Cyhoeddiadau'r Adran Addysg a Sgiliau Nottingham

Tabberer, R. (2013) *Adolygiad o Hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <http://wales.gov.uk/doCyfnod Sylfaen/dcells/publications/131007-review-of-initial-teacher-training-in-wales-en.pdf> (cyrchwyd 10/2/2014).

Taylor, C., Maynard, T., Davies, R., Waldron, S., Rhys, M. Power, S., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2013) *Evaluating the Foundation Phase: Annual Report 2011/12* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 42/2013 <http://wales.gov.uk/statistiCyfnod Sylfaen-and-research/evaluation-foundation-phase-policy-logic/?status=open&lang=en> (cyrchwyd 10/2/2014)

Tatton, A. (2005) *Early Years Research: Skills Gaps and Training Needs within the Early Years Sector*. Birmingham: Waterloo Design & Print plc.

UNESCO. (2004) *EFA Global Monitoring report 2005 Education for All the Quality Imperative*. Paris: UNESCO.

West, A., Roberts. J. a Noden, P. (2010) 'Funding Early Years Education and Care: Can a Mixed Economy of Providers Deliver Universal High Quality Provision?' *British Journal of Educational Studies*, 58 (2), tt.155-179

Atodiad 1: Rhestr o aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Archwilio'r Cyfnod Sylfaen

Alison Heale	Pennaeth, Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy.
Amanda Gould	Yn cynrychioli Swyddogion Cymorth Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen
Angela Cheeseman	Tîm Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru
Annette Evans	Swyddog Arweiniol y Cyfnod Sylfaen Conwy ac arweinydd strategol Dechrau'n Deg a Gofal Plant
Denise Kingston	Swyddog Ymchwil
Emma Laing	Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville, Caerdydd
Gaynor Brimble	Arweinydd System y Cyfnod Sylfaen Gwasanaeth Cynghorol Addysg De-ddwyrain Cymru
Iram Siraj	Cadeirydd
Janette Gahan	AGGCC
Joanne Starkey	Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru
Karen Cornish Llywodraeth	Pennaeth y Blynyddoedd Cynnar, Cymru
Linda Davies	Arweinydd Strategol y Cyfnod Sylfaen, Consortiwm Canol De Cymru
Cydgynrychiolaeth gan AEM	Estyn
Rhiannon Davies Cymru	Tîm Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth
Sharman Morgan	Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)

Wayne Warner

Rheolwr Prosiect Fframwaith
Datblygu ac Asesu Blynyddoedd Cynnar,
Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Crynodeb byr o hyfforddiant ac argymhellion a rhesymeg gysylltiedig

Crynodeb

Mae'r wybodaeth a geir yma wedi'i chrynhofi o brif gorff yr adroddiad ar yr Archwiliad o weithredu'r Cyfnod Sylfaen, cyfeiriwch ato am ragor o fanylion a chyd-destun. Mae'r diffiniad o hyfforddiant yn yr atodiad hwn wedi'i gyfyngu i ystyried yr agweddau hynny ar DPP a allai gael eu datblygu'n ddefnyddiol i'w defnyddio ledled Cymru. Mae'n dilyn y rhesymeg a gyflwynwyd ar gyfer y modiwlau cyffredinol a ddatblygwyd ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen.

Roedd y modiwlau cyffredinol a ddatblygwyd ar ddechrau'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen o ansawdd gwan yn gyffredinol ac, o ganlyniad, fe'u newidiwyd ac fe'u datblygwyd gan ALLau unigol a chonsortia dros y blynyddoedd. Mae rhai fersiynau newydd wedi cael eu rhannu gyda'r Archwiliad ac maent yn welliant sylweddol o gymharu â'r modiwlau gwreiddiol, yn enwedig mewn perthynas â darparu enghreifftiau o amgylcheddau ffisegol o ansawdd uchel. O ystyried y fath newidiadau unigol i ALLau a chonsortia, mae'n anodd pennu a gynigir hyfforddiant cyffredinol mwyach.

Roedd y gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau mewn hyfforddiant a hygyrchedd i bob aelod priodol o staff yn destun pryder i'r Archwiliad ac roedd lefel a chynnwys yr hyfforddiant cychwynnol o leiaf ar goll. Ymddengys fel petai'n targedu'r sector nas cynhelir a ariennir a'r rhai sy'n gweithio gyda'r grwpiau oedran iau. Gwnaed argymhellion penodol ynghylch hyfforddiant drwy gydol yr adroddiad ac maent yn cynnwys: sicrhau ei fod yn 'addas at y diben' ac yn addas ar gyfer ei gynulleidfaoedd; llunio canllawiau ar y ffordd y mae'r Cyfnod Sylfaen yn gweddu i gyfeiriadau polisi cyfredol eraill, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol; gall pob arweinydd (ar lefel consortia yn ogystal â lefel ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir), staff Cyfnod Allweddol 2 a phob lleoliad nas cynhelir gael hyfforddiant perthnasol. Yn ogystal, mae angen i rai meysydd o ymarfer a gwybodaeth gael eu hatgyfnerthu gan gynnwys: buddiannau'r Cyfnod Sylfaen i bob plentyn, teulu a chymuned yng Nghymru o ran cyfleoedd dysgu a datblygu a thwf economaidd yn gyffredinol; sgiliau arweinyddiaeth; arfer myfyriol; deall sut mae plant yn dysgu ac yn datblygu; effeithiau anfantais; pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y cartref a chefnogi cyfnodau pontio. At hynny, dylid rhoi mwy o bwyslais ar gysylltu theori ac ymchwil ag ymarfer ac, yn arbennig, rôl yr oedolyn wrth gefnogi dysgu a datblygu ym mhob modiwl hyfforddi. Byddai'r gwaith o ddatblygu modiwlau yn y dyfodol yn cael ei gefnogi orau gan arbenigwyr ym maes datblygu hyfforddiant a modiwlau ar y lefelau gofynnol, er enghraifft y Brifysgol Agored. Yn olaf, mae angen i fodolau clir ac enghreifftiau o ymarfer o fewn y Cyfnod Sylfaen yn y sector cyfan gael eu nodi, bod ar gael a bod yn hygyrch. Gellid rhannu

gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer gorau ar wefan Cyfnod Sylfaen ar yr amod ei bod yn hygyrch ac yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Roedd hygyrchedd a chael y wybodaeth ddiweddaraf yn gwynion cyffredin gan athrawon ac ymarferwyr o ran y wefan ym mhrosiect MEEIFP (Siraj-Blatchford et al., 2006) a byddai'n rhaid osgoi hynny er mwyn i hyn fod yn effeithiol.

Mae'r adran ganlynol yn dadansoddi'r hyfforddiant a'r argymhellion a gynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o weithredu a chydgrynhoi'r Cyfnod Sylfaen. Mewn dwy is-adran, mae'n ystyried y goblygiadau i hyfforddiant ar 1) Lefel yr ALL/consortia ac arweinyddiaeth ac yna 2) Lefel yr athro/ymarferydd. Mae'n werth nodi nad yw'r lefelau a'r argymhellion hyn yn annibynnol ar ei gilydd a cheir gorgyffwrdd felly dylai'r ddwy adran gael eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth yn mynd ar goll.

Dadansoddiad o'r Hyfforddiant (a gwaith cysylltiedig) sydd ei angen i gefnogi'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen

1. Hyfforddiant Consortia/ALL ac arweinwyr:

Dylai arweinwyr strategol o fewn y wlad yn ogystal ag arweinwyr consortia/ALLau, ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir gael hyfforddiant a fydd yn eu helpu i ddeall pa mor bwysig yw Cyfnod Sylfaen addysg, nid yn unig i blant a theuluoedd ond hefyd i ddyfodol y wlad. Dylent gael cymorth i gydnabod sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi dyhead Cymru i 'wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau pob plentyn yng Nghymru' (yr Adran Addysg a Sgiliau, 2013a). Ar y cyd â hyn mae angen iddynt ddeall yn glir yr egwyddorion a'r arferion a geir o fewn y Cyfnod Sylfaen fel eu bod yn gallu eu cydnabod a'u hyrwyddo.

Mae angen iddynt fod yn hyderus yn eu dealltwriaeth a bod yn gyfarwydd â'r Cyfnod Sylfaen fel eu bod yn gallu cefnogi'r broses o nodi a hyrwyddo ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n esiampl o ymarfer ardderchog. Yna gallai darparwyr a nodwyd fodelu'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ar draws yr ystod oedran (3-7) gan agor eu drysau i ymweliadau yn ogystal â llywio hyfforddiant gydag enghreifftiau penodol yn eu cyd-destun o addysgeg ac ymarfer Cyfnod Sylfaen.

Yn olaf, mae angen i'r arweinwyr hyn fod yn sicr ynghylch eu sgiliau arwain ac adeiladu tîm eu hunain. Dylid cynnig hyfforddiant ar sgiliau arwain iddynt a fydd yn eu cynorthwyo i arwain timau cydweithredol, effeithiol a fydd wedyn yn gallu datblygu eu hymarfer, gan groesawu prosesau hunanwella parhaus sy'n cefnogi'r broses o weithredu a chydgrynhoi'r Cyfnod Sylfaen.

4	<i>Ystyried hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr o fewn y sector cyfan, gan gynnwys arweinwyr strategol yn y Wlad, consortia, penaethiaid cynradd, staff cyngori, arweinwyr lleoliadau nas cynhelir</i>
---	---

	<i>a ariennir a gwasanaethau i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i'r gynulleidfa ac ystyried ei hanes a phrofiadau blaenorol a chynnwys ymchwil sy'n dangos sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi safonau ac effeithio ar dwf cymdeithasol ac economaidd yn gyffredinol.</i>
3	Nodi lleoliadau/ysgolion rhagorol er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant pob aelod o staff. Nodi dulliau o rannu arfer gorau rhwng ysgolion a gynhelir a phob lleoliad nas cynhelir ac i'r gwrthwyneb.
15	<i>Datblygu hyfforddiant pwrpasol penodol ar arweinyddiaeth sydd wedi'i gynllunio i gefnogi arweinwyr ym mhob rhan o'r sector, o fewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir, ond yn enwedig gan gynnwys penaethiaid cynradd</i>

2. Hyfforddiant Athrawon/Ymarferwyr

Mae angen i bob athro/ymarferydd feddu ar ddealltwriaeth dda o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen gan mai hyn sy'n allweddol i ddysgu a datblygiad llwyddiannus y plant. Byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth weithredol am ddysgu drwy brofiad, prosiectau ystyrlon sydd o ddiddordeb i blant, gwaith cynllunio ac asesu er mwyn sicrhau bod sgiliau'n cael eu meithrin o fewn y Cyfnod Sylfaen a chydbwysedd priodol rhwng dysgu ac iddo ffocws a dysgu annibynnol, datblygu addysgeg drwy brofiad, seiliedig ar chwarae a darparu amgylchedd cyfoethog a diddorol o fewn yr ystafell ddosbarth, y tu allan iddi a'r tu hwnt iddi yn seiliedig ar ddiddordebau plant. Dylai staff deimlo'n hyderus wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, gan feddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a sut mae plant yn dysgu ac yn datblygu. Mae angen iddynt fod yn hyderus i fyfyrwyr ar eu gwaith a'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen mewn ffordd feirniadol, gan ddehongli'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n gweddu i'w plant a'u teuluoedd a'r diwylliant o fewn eu hysgolion/leoliadau yn hytrach na'i weithredu'n unig (Munton et al, 2002). Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen datblygu hyfforddiant mwy manwl gywir ledled Cymru. Hefyd, enghreifftiau o ymarfer rhagorol mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir i weithredu fel modelau ac i eraill ymweld â hwy yn cefnogi'r dysgu hwn.

O ran hyfforddiant llythrennedd a rhifedd, mae angen i staff gael canllawiau ar gefnogi sgiliau siarad a gwrando, llythrennedd a rhifedd sy'n dod i'r amlwg, cysylltu'r hyn a ddysgir â diddordebau a galluogi plant i ddeall diben a swyddogaeth llythrennedd a rhifedd. Mae angen i staff gael canllawiau ar y ffordd orau o gefnogi datblygiad iaith, llythrennedd a rhifedd drwy weithgareddau dysgu annibynnol a'r rhai

ac iddynt ffocws. Mae angen iddynt ddeall sut i drefnu'r amgylchedd er mwyn rhoi cyfleoedd niferus i blant ymarfer eu hiaith, llythrennedd a rhifedd ar lefel sy'n briodol. Yn ogystal, mae angen iddynt deimlo'n hyderus i addysgu agweddau ar lythrennedd a rhifedd ar y lefelau priodol a chefnogi rhieni/gofalwyr wrth ddatblygu llythrennedd a rhifedd eu plant yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref. Mae angen iddynt deimlo'n hyderus yn yr hyn i'w wneud, er enghraifft defnyddio caneuon a hwiangerddi i gefnogi ymwybyddiaeth ffonolegol drwy rigymau a chyflythrennu, felly wrth iddynt wneud hyn gallant hefyd dynnu sylw'r plentyn ato.

O ran y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, dylai hyfforddiant danlinellu pwysigrwydd yr asesiad unigol o sgiliau a galluoedd y plant er mwyn sicrhau bod yr addysg a'r gofal yn briodol ac yn gweddu i'w anghenion dysgu a datblygu. Dylai'r addysgu a'r dysgu gael eu harwain gan y plant a'u hanghenion ac nid y deilliannau. Mae angen i ganllawiau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd fod yn briodol i anghenion y plant a chynnwys annog staff i helpu plant i chwarae gyda geiriau a synau, caneuon a rhigymau a datblygu eu sgiliau mathemategol wrth iddynt godi'n naturiol ac yn ystyrlon.

Mae angen i staff gael cymorth a hyfforddiant i ddeall y rôl y gall anfantais ei chwarae ym mywydau plant a theuluoedd a sut y gallant weithio er mwyn atal rhai effeithiau hirdymor. Mae angen hyfforddiant arnynt er mwyn adeiladu empathi a'u galluogi i adnabod unrhyw agweddau eithrio a all fod ganddynt, mae hefyd angen hyfforddiant arnynt er mwyn eu helpu i ddeall sut y gallent wneud gwahaniaeth, sut y gallent feithrin cydberthnasau a chynnwys plant a rhieni yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae angen i athrawon/ymarferwyr ar draws y Cyfnod Sylfaen a thu hwnt (cyn y Cyfnod Sylfaen er enghraifft Dechrau'n Deg a staff gofal plant ac i mewn i Gyfnod Allweddol 2) gydweithio er mwyn sicrhau y ceir cyfnodau pontio llyfn ar gyfer y plant a'u teuluoedd. Gallai hyfforddiant ar y cyd baratoi ar gyfer effeithiau cyfnodau pontio a'r ffordd orau o'u cefnogi, ynghyd â'u harchwilio. O ran trosglwyddo gwybodaeth rhwng lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion a gynhelir, mae Cymru wrthi'n cynllunio adnodd asesu cenedlaethol sy'n rychwantu'r Cyfnod Sylfaen. Unwaith y caiff ei gyflwyno, dylid darparu hyfforddiant hefyd er mwyn helpu pobl i'w ddefnyddio. Dylai hyfforddiant o'r fath bwysleisio asesiad gan yr athro a'r ymarferydd a bydd yn gofyn am hyfforddiant ar ddefnyddio dulliau arsylwi fel ffordd o fesur effaith a chynnydd plant, yn ogystal â chefnogi addysgu a dysgu parhaus ac yn y dyfodol. Bydd yn gofyn am hyfforddiant ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff yn gyfarwydd ag ef, bod y broses gymedroli'n fanwl gywir a bod pob aelod o staff yr un mor gymwys. O ganlyniad i'w cefndiroedd gwahanol a lefelau cymwysterau, efallai y bydd angen i staff mewn lleoliadau nas cynhelir gael cymorth ychwanegol neu feddu ar gymwysterau pellach er mwyn sicrhau eu bod yn gallu mesur cynnydd yn y fath fodd.

Yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, a'i ymestyn i Flynyddoedd 1 a 2, ynghyd â'r newid mewn cymarebau, mae llawer o athrawon mewn ysgolion a gynhelir bellach hefyd yn arwain ymarfer yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain. Yn ogystal, mae gan lawer o

ymarferwyr (yn y sector nas cynhelir) a chydgyssylltwyr Cyfnod Sylfaen (mewn ysgolion a gynhelir) gyfrifoldebau arwain a rheoli enfawr, ac nid yw llawer ohonynt byth wedi cael budd unrhyw hyfforddiant arwain a rheoli. Dylai adnabod a chefnogi'r arweinwyr hyn drwy hyfforddiant ym maes arweinyddiaeth helpu i ddefnyddio staff (gan gynnwys CAau) yn effeithiol, adeiladu timau cydlynol, cefnogi cyfraddau cadw staff a chamu ymlaen mewn gyrfa, gwella dysgu plant a chefnogi cydberthnasau o fewn y Cyfnod Sylfaen a thu hwnt iddo. Dylai hefyd gefnogi diwylliant o hunanasesu a gwelliant parhaus o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Yn olaf, efallai y bydd angen datblygu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff a CAau nas cynhelir a ariennir ac nas ariennir fel sy'n briodol. Gall hyn gynnwys hyfforddiant llythrennedd a rhifedd i'r rheini y gall fod ei angen arnynt o fewn y Cyfnod Sylfaen.

5	<i>Sicrhau yr ategir pob modiwl/hyfforddiant gan waith theori ac ymchwil sy'n nodi'n glir werth addysg gynnar effeithiol. Mae angen i'r cysylltiadau rhwng gwaith theori ac ymarfer a rôl bwysig yr oedolyn fod yn amlwg.</i>
6	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n pwysleisio ac yn egluro datblygiad sgiliau o fewn y Cyfnod Sylfaen. Dylai modelau ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gael eu rhannu a'u gwerthuso ym mhob grŵp oedran. Sicrhau bod y modelau a'r enghreifftiau hyn ar gael yn hawdd i ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir (ar-lein a/neu drwy ymweliad efallai).</i>
7	<i>Ystyried hawl plant tair oed i addysg a gofal cynnar o ansawdd uchel lle bynnag y mae eu rhieni yn dewis eu rhoi. Efallai y bydd angen hyfforddiant (gan gynnwys mentora gan athro cymwys) ac adnoddau ychwanegol mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac nas ariennir er mwyn sicrhau profiad cyfartal.</i>
8	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o sut mae iaith, llythrennedd a rhifedd yn datblygu a sut i gefnogi datblygiad plant o fewn y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys rôl bwysig yr oedolyn.</i>
9	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n cynnwys canllawiau ac enghreifftiau clir o sut mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gweddu i'r Cyfnod Sylfaen, 3-4 a 5-7. Er enghraifft yn y canllawiau 3-4 oed sut y gall caneuon a hwiangerddi bwysleisio dealltwriaeth o synau mewn rhigymau a chyflythrennu.</i>
11	<i>Ystyried cefnogi dilyniant a pharhad drwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy ddatblygu rhywfaint o hyfforddiant a chanllawiau ychwanegol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar ymarfer iaith, llythrennedd a rhifedd i blant 3 a 4 oed, gan sicrhau bod hyn yn briodol i blant o'r fath. Dylai ddilyn eu hanghenion dysgu a datblygu unigol a gweddu i athroniaeth ac ymarfer drwy brofiadau'r Cyfnod Sylfaen.</i>

12	<i>Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr ymchwil i effeithiau anfantais a thlodi a'r ffyrdd posibl o gau'r bwlch o ran cyflawniad. Dylai rhannu arfer da o'r ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hynny lle mae hyn yn gweithio'n dda fod yn rhan o'r hyfforddiant yn yr un modd ag ymchwil i gefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref (ADC). Gellid gofyn i ysgolion a gynhelir neilltuo rhywfaint o'u Grant Amddifadedd Disgyblion (neu rywbeth tebyg) i ddatblygiad staff cymorth yma.</i>
13	<i>Ystyried atgyfnerthu trefniadau pontio drwy hyfforddi'r holl staff dan sylw gyda'i gilydd (staff o bob lleoliad nas cynhelir, Dechrau'n Deg, staff Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 ac ati) Dylai'r hyfforddiant gynnwys ymchwil a gwaith theori cyfredol ynghyd ag enghreifftiau ymarferol o arferion pontio da.</i>
14	Parhau i ddatblygu (drwy'r Fframwaith Datblygu ac Asesu Blynyddoedd Cynnar) ac yna weithredu proffil asesu sy'n ystyried sgiliau ymarferwyr. Sicrhau bod y proffil hwn yn parhau drwy gydol y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) a bod unrhyw elfennau safonol yn cael eu cymedroli. Dylai asesiadau o'r plant ieuengaf fod yn gyfyngedig i asesiadau arsylwadol gan athrawon/ ymarferwyr. Pan fo plant yn 5 oed (gan weithredu fel llinell sylfaen) ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 7 oed y byddai orau i gyflwyno elfennau safonol.
15	<i>Datblygu hyfforddiant pwrpasol penodol ar arweinyddiaeth sydd wedi'i gynllunio i gefnogi arweinwyr ym mhob rhan o'r sector, o fewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, ond yn enwedig gan gynnwys penaethiaid cynradd.</i>
17	Sicrhau bod CAau yn cael budd o brosesau DPP a chymorth o fewn ysgolion a gynhelir a bod hyfforddiant llythrennedd a rhifedd ar gael i'r rheini sydd ei angen. Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ar gyfer CAau o fewn ysgolion a gynhelir. Hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ac adolygu telerau ac amodau gwaith CAau er mwyn denu staff cymwys.

Atodiad 3: Enghreifftiau o aelodaeth grŵp cynllunio strategol posibl

Cynrychiolydd o Estyn

Cynrychiolydd o AGGCC

Cynrychiolydd o Ymgynghorwyr Cyfnod Sylfaen Cymru Gyfan

Cynrychiolydd o gymdeithasau mantell sy'n cefnogi lleoliadau nas cynhelir

Uwch arweinwyr systemau o bob Consortia

Cynrychiolwyr o'r Adran Addysg e.e. Grŵp cwricwlwm, Grŵp asesu ac Adran Blynnyddoedd Cynnar

Cynrychiolwyr o Addysg Uwch e.e. Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysg

Academyddion sy'n deall tystiolaeth ymchwil a gwerthuso

Arweinydd gwasanaethau plant a theuluoedd par helpu plant a theuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel e.e. Pennaeth Amddifadedd

Prif Seicolegydd Addysgol

Penaethiaid ac arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir y gwyddys eu bod yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn dda

Y tu hwnt i Gymru arbenigwyr addysg plentyndod cynnar (e.e. prif arolygwyr neu academyddion o bob cwr o'r DU)

Atodiad 4: Cwestiynau a gymerwyd o holiadur enghreifftiol a ddefnyddiwyd yn yr archwiliad

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn chi a barn eich cydweithwyr, felly os hoffech gyflwyno ymateb ar y cyd mae croeso i chi wneud hynny. Nodwch eich rôl a'ch enw (os ydych yn hapus i wneud hynny) yma, ac, os yw'n briodol, rolau cydweithwyr a chyfanswm nifer y bobl a wnaeth ymateb. Caiff yr holl wybodaeth ei thrin yn gyfrinachol.

Rydym yn casglu tystiolaeth ar draws y Cyfnod Sylfaen felly byddai'n ddefnyddiol petaech yn nodi pa fath o leoliad/ysgol y mae eich gwybodaeth yn cyfeirio ato:

Cofiwch: Os bydd unrhyw gwestiwn neu ran o gwestiwn yn amhriodol i chi ei ateb, nodwch hyn a symudwch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

1. Beth yw prif nodweddion (dysgu gweithgar, addysgeg chwarae, amgylcheddau dan do/awyr agored, cymysgedd o weithgareddau a gychwynnir ac a arweinir gan blant ac oedolion, cynllunio, asesu, partneriaeth rhieni ac ati) gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn dda/ardderchog?

A yw'r prif nodweddion hyn yr un peth ar draws yr ystod oedran gyfan?

- Lleoliadau nas cynhelir a ariennir ar gyfer plant 3 a 4 oed
- Ysgolion a gynhelir ar gyfer plant 3 a 4 oed (gan gynnwys y rhai sy'n rhan o ysgol gynradd)
- Ysgolion a gynhelir ar gyfer plant 5-7 oed (ysgolion cynradd)

2. Yn eich profiad chi, beth sy'n gyfystyr ag arfer gorau o ran cefnogi datblygiad iaith plant yn y Cyfnod Sylfaen?

Lle NAD yw arfer gorau yn amlwg, beth sy'n atal hyn?

3. Pa wahaniaeth y mae gweithredu'r Cyfnod Sylfaen wedi'i wneud?

Rhowch enghreifftiau a nodwch i ba oedrannau y maent yn gymwys.

a) Deilliannau dysgu pob plentyn.

b) Plant (heblaw am eu deilliannau dysgu), teuluoedd a staff.

4. Yn eich profiad chi, beth sy'n gyfystyr ag arfer gorau o ran cefnogi plant a theuluoedd o ardaloedd amddifad yn y Cyfnod Sylfaen?

Lle NAD yw arfer gorau yn amlwg, beth sy'n atal hyn?

5. Ystyriwch eich profiadau o weithredu'r fframweithiau llythrennedd a rhifedd yn y Cyfnod Sylfaen.

a) Rhowch enghreifftiau o arfer gorau ym maes y Fframwaith Llythrennedd.

b) Rhowch enghreifftiau o arfer gora ym maes y Fframwaith Rhifedd

6. A ddylai fersiynau addas o'r fframweithiau llythrennedd a rhifedd, gyda phwyslais ar lythrennedd a rhifedd sy'n dod i'r amlwg, gael eu cyflwyno i blant 3 a 4 oed?

7. Disgrifiwch sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi cyfnodau pontio i mewn, allan o ac o fewn lleoliadau/ysgolion?

8. Sut y byddech yn awgrymu y dylid dangos dilyniant plant o fewn y Cyfnod Sylfaen orau? Rhowch enghreifftiau.

9. Yn eich profiad chi, a yw cymwysterau athrawon/ymarferwyr yn cael effaith ar ansawdd gweithredu'r Cyfnod Sylfaen? Rhowch enghreifftiau ar draws yr ystod oedran lle bo'n briodol.

10. Yn eich profiad chi, a yw athrawon sydd newydd gymhwyso yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn dda? Rhowch enghreifftiau ar draws yr ystod oedran lle bo'n briodol. A oes unrhyw beth y byddech yn argymhell sydd ei angen ar athrawon sydd newydd gymhwyso fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol a thu hwnt i'w cefnogi?

11. Pa effaith y mae cyflogi oedolion ychwanegol mewn ysgolion a lleoliadau Cyfnod Sylfaen wedi'i chael?

12. Mae athrawon ac ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen wedi dweud wrthym fod y cymarebau cyfredol yn gywir fwy neu lai ar gyfer plant 3 a 4 oed, 5 a 6 oed a 6 a 7 oed ond, gyda phlant 4 a 5 oed (dosbarthiadau derbyn) gellid cynyddu'r cymarebau ychydig (1 i 10) fel bod arian yn gallu cael ei ddargyfeirio i gyfloi staff mwy cymwys. A ydych yn cytuno â hyn?

13. Yn eich profiad chi, beth yw prif nodweddion arweinwyr effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen? Rhowch enghreifftiau ar draws yr ystod oedran lle bo'n briodol.

14. Nododd adroddiad Estyn (2011), mewn rhai ysgolion, nad oedd yr arweinwyr yn deall egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Beth fydddech chi'n ei awgrymu er mwyn gwella arweinyddiaeth yn y Cyfnod Sylfaen?

15. Disgrifiwch unrhyw elfennau o DPP neu hyfforddiant/cyfleoedd datblygu eraill sydd wedi cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cyfnod Sylfaen.

16. A oes unrhyw agweddau ar hyfforddiant/cyfleoedd datblygu sydd ar goll ac sy'n bwysig yn eich barn chi? A yw rhai mathau o leoliadau/ysgolion yn gofyn am hyfforddiant gwahanol?

17. Sut mae newid o weithredu'r Cyfnod Sylfaen gan ALL i waith Consortia wedi dylanwadu ar y broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen? Sut y gellid gwella hyn?

18. O'ch sefyllfa unigryw chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'r prif rwystr i weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus?

19. Beth fydddech chi'n ei awgrymu er mwyn gwella'r broses o weithredu'r Cyfnod Sylfaen?

a) yn y byrdymor.

b) yn y tymor hwy.

20. A oes unrhyw wybodaeth arall a fyddai, yn eich barn chi, yn bwysig i weithredu'r Cyfnod Sylfaen y dylai'r archwiliad ei hystyried?